
Rhif: **WG15709**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **31 Mai 2012**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **1 Medi 2012**

# Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru

**Trosolwg**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch cymwysterau a ddilynir gan bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru. Mae'n rhan o'r Adolygiad o Gymwysterau 14–19, sy'n ystyried sut y gallwn sicrhau cymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi, ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru.

Mae'r papur hwn yn nodi ac yn gwahodd sylwadau ar y prif faterion a ddaeth i'r amlwg hyd yn hyn. Mae'n ceisio barn ar rai cynigion ac opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Mae cymwysterau yn dechnegol eu natur, ac mae'n bwysig bod yn fanwl ein hymdriniaeth â nhw. Rydym felly wedi rhannu'r papur yn ddwy ran. Mae Rhan A ar gyfer yr holl ymatebwyr ac yn sefydlu'r darlun cyffredinol a'r cwestiynau allweddol. Mae Rhan B yn fwy manwl a thechnegol ac yn cynnwys cwestiynau am nifer o feysydd penodol a fydd o ddiddordeb i arbenigwyr ac ymarferwyr. Anogir yr holl ymatebwyr i ateb Rhan A, ac i ateb unrhyw gwestiynau sy'n mynd â'u bryd yn Rhan B, ond nid oes disgwyl y bydd gan yr holl ymatebwyr farn am bob cwestiwn.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ffurflenni ymateb i'r cyfeiriad isod erbyn **1 Medi 2012** fan bellaf.

Cynhelir diwrnod tystiolaeth ar 11 Gorffennaf 2012 yn y Drenewydd. Os ydych yn dymuno cyflwyno eich sylwadau wyneb yn wyneb i aelodau'r Bwrdd Adolygu, cewch wneud cais i fod yn bresennol yn y digwyddiad hwn. Anfonwch e-bost erbyn 15 Mehefin i reviewofquals@cymru.gsi.gov.uk gan gynnwys y geiriau 'Diwrnod tystiolaeth' a'ch enw yn llinell y testun. Bydd ceisiadau yn cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin, a byddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cais erbyn 29 Mehefin 2012.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Ceir tudalennau gwe'r Adolygiad o Gymwysterau yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/revofqualen/?skip=1&lang=cy

Yma cewch wybodaeth gefndir am yr Adolygiad, y papur ymgynghori hwn, y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, a manylion am y diwrnod tystiolaeth.

© Hawlfraint y Goron 2012
WG15709

**Manylion cysylltu**

Nia Jones
Yr Adolygiad o Gymwysterau
Yr Is-adran Cymwysterau a Dysgu
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

e-bost: reviewofquals@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 01443 663725

**Diogelu data**

## Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn ni'n cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel rheol, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych chi'n dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni drwy lythyr wrth ichi anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Rhagair** 3

**Canllaw adrannau** 5

**Rhan A: I'r holl ymatebwyr** 6

A1. Cefndir yr Adolygiad 6

A2. Y weledigaeth a'r egwyddorion 6
- A2.1 Gweledigaeth hirdymor ar gyfer cymwysterau 14–19 yng Nghymru 6
- A2.2 System glir a syml yn seiliedig ar raglenni dysgu cydlynol 7
- A2.3 Cymwysterau perthnasol, sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn rhyngwladol 8
- A2.4 Gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd 9
- A2.5 Asesu cadarn, dilys a chymesur 10
- A2.6 Ennyn diddordeb ac ysgogi pob dysgwr 10
- A2.7 Mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg a Saesneg 11
- A2.8 Ar sail tystiolaeth a chyda sicrwydd ansawdd 11
- A2.9 Cyfnodau yn hytrach nag oedrannau 12
- A2.10 Bodloni anghenion Cymru 13

A3. Cynigion a materion allweddol 15
- A3.1 Cymhwyster Bagloriaeth Cymru 15
- A3.2 TGAU 16
- A3.3 Safon Uwch 17
- A3.4 Cymwysterau galwedigaethol 18
- A3.5 Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach 19
- A3.6 Pynciau STEM 19
- A3.7 Cyfathrebu 20

**Rhan B: Materion technegol ac arbenigol** 21

B1. Diben cymwysterau 21

B2. Cyfnodau 14–16 ac 16–19 21
- B2.1 Addysg gyffredinol ac eang 14–16 21
- B2.2 Rhaglenni dysgu cydlynol 16–19 22

B3. Symleiddio 24
- B3.1 Lleihau nifer y cymwysterau – ymagwedd cam wrth gam 25
- B3.2 Datblygu a chymeradwyo cymwysterau newydd 25

B4. Llythrennedd a rhifedd 27
B4.1 Asesu llythrennedd a rhifedd ar gyfer 14–16 27
B4.2 Llythrennedd a rhifedd ar gyfer 16–19 28

B5. Materion sy'n ymwneud â mathau penodol o gymhwyster 29
B5.1 Graddio Bagloriaeth Cymru 29
B5.2 Materion asesu ar gyfer TGAU 29
B5.3 Haenu TGAU a chyflawniad ar Lefel 1 30
B5.4 Nifer y cymwhysterau TGAU a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru 31
B5.5 Asesu Safon Uwch 32
B5.6 Dosbarthu cymwysterau galwedigaethol: IVETs a CVETs 33
B5.7 Cymwysterau galwedigaethol 14–16 34
B5.8 Cymwysterau galwedigaethol 16–19 36
B5.9 Asesu Sgiliau Hanfodol Cymru 36
B5.10 Sgiliau Allweddol Ehangach 37
B5.11 Cymwysterau lefel mynediad 38
B5.12 Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd 38
B5.13 Materion cyfrwng Cymraeg 39

B6. Mesur perfformiad ysgolion 39
B6.1 Mesurau perfformiad ysgolion 39
B6.2 Cyfwerthoedd 41
B6.3 Cyfraniad cymwysterau 'cyfwerth' a diystyru cymwysterau 43
B6.4 Cymharu perfformiad â Lloegr 43

B7. Y farchnad a rheoleiddio 44
B7.1 Adolygiad o strwythur y farchnad cymwysterau cyffredinol 44
B7.2 Y farchnad ar gyfer cymwysterau 45
B7.3 Rheoleiddio a sicrhau ansawdd 45

**Atodiad: Tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid 47**

# Rhagair

Lansiodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Jeff Cuthbert AC, yr Adolygiad o Gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed ym mis Medi 2011. Gofynnodd i mi ac i aelodau eraill y Bwrdd Adolygu ystyried sut y gallwn wireddu'r weledigaeth o "gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru".

Rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Mai 2012 mae'r Bwrdd wedi casglu tystiolaeth a chynnal trafodaethau helaeth ag ystod eang o randdeiliaid i archwilio eu barn a'u syniadau am gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed. Mae'r papur ymgynghori hwn yn nodi ein safbwynt presennol ar hyn o bryd, hanner ffordd drwy'r Adolygiad, ac yn gwahodd sylwadau ar faterion allweddol a chynigion.


Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r cyd-destun economaidd y mae'r Adolygiad yn cael ei gynnal ynddo. Mae lefel uchel o ddiweithdra a'r dirywiad economaidd byd-eang yn rhoi pwysau newydd sylweddol ar bobl ifanc. Datblygodd y trefniadau presennol ar gyfer cymwysterau mewn hinsawdd economaidd wahanol, lle'r oedd llawer o bobl ifanc yn gadael yr ysgol ac yn mynd i fyd cyflogaeth yn 16 oed. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, cafwyd gostyngiad dramatig yn nifer y bobl ifanc yn y farchnad lafur. Mae mwy o bobl ifanc erbyn hyn yn parhau mewn addysg ar ôl troi'n 16 oed, a mwy yn symud ymlaen i addysg uwch yn 18 oed.

Mae angen cydnabod y newidiadau hyn, ac mae angen i'r system gymwysterau ymateb i'r heriau sy'n datblygu, gan sicrhau deilliannau cadarnhaol o ran y dysgu a gyflawnir a'r cymwysterau a enillir. Ceir tystiolaeth fod proffil oedran y bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET) yn codi, gyda llai ohonynt yn 16–17 oed ond mwy ohonynt yn 18–25 oed. Mae'n hanfodol nad pasio'r amser yn unig y bydd pobl ifanc mewn addysg yn ei wneud. Yn hytrach, mae'n rhaid iddynt fod yn caffael y sgiliau, yr wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymwysterau a fydd yn rhoi'r mwyaf o allu iddynt fynd i mewn i fydoedd cyflogaeth neu addysg uwch sy'n fwyfwy cystadleuol. Rydym am i'n pobl ifanc allu ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod a'u parchu'n rhyngwladol.

Dyma adeg dda felly i bwyso a mesur a yw ein cymwysterau presennol ar gyfer 14–19 yn addas i'r diben, ac a ydynt yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr, prifysgolion a chymdeithas yn gyffredinol.

Mae'r cynigion a'r cwestiynau yn y papur hwn yn anelu i sicrhau bod cam nesaf yr Adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, gan adlewyrchu barn pawb a chanddynt ddiddordeb mewn cymwysterau ar gyfer pobl ifanc. Manteisiwch ar y cyfle hwn i roi gwybod i ni beth yw eich barn, p'un a ydych yn ddysgwr, yn rhiant/gofalwr, yn gyflogwr neu'n rhywun sy'n gweithio mewn addysg neu hyfforddiant. Rydym wedi rhannu'r papur yn ddwy ran. Anelir Rhan A at yr holl ymatebwyr; mae Rhan B yn fwy manwl a thechnegol ac efallai y bydd gan arbenigwyr mewn meysydd neilltuol fwy o ddiddordeb ynddi. Mae croeso i chi ateb rhai neu'r cyfan o'r cwestiynau.

Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori hwn ac ar ôl casglu tystiolaeth bellach, bydd y Bwrdd yn cyflwyno ei adroddiad a'i argymhellion terfynol i'r Dirprwy Weinidog tua diwedd 2012.



**Huw Evans OBE**
**Cadeirydd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed**

# Canllaw adrannau

Mae'r rhestr ganlynol yn dangos y rhannau o'r papur ymgynghori a allai fod o ddiddordeb neilltuol i grwpiau penodol.

| | |
|---|---|
| **Dysgwyr/rhieni/ gofalwyr** | Rhan A a B3, B4.1, B4.2, B5.1, B5.2, B5.3, B5.4, B5.5, B5.7, B5.9, B5.10, B5.11, B5.13, B6.4 |
| **Darparwyr dysgu** | Pob cwestiwn |
| **Cyflogwyr** | Rhan A a B3, B3.1, B3.2, B4.1, B4.2, B5.1, B5.4, B5.7, B6.4 |
| **Ymarferwyr addysg uwch** | Rhan A a B3, B3.1, B3.2, B4.1, B5.4, B5.5, B6.4 |
| **Sefydliadau dyfarnu** | Pob cwestiwn |

# Rhan A: I'r holl ymatebwyr

## A1. Cefndir yr Adolygiad

Arweinir yr Adolygiad o Gymwysterau 14–19 ('yr Adolygiad') gan Fwrdd Adolygu ('y Bwrdd') a benodwyd gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau, Jeff Cuthbert AC. Rhestrir Aelodau'r Bwrdd yma. Safbwyntiau'r Bwrdd, ac nid Llywodraeth Cymru o reidrwydd, yw'r safbwyntiau a geir yn y papur ymgynghori hwn.

Ysgogwyd yr Adolygiad gan bryderon ynghylch cymhlethdod y system bresennol, i ba raddau y mae pobl yn ei deall, a pherthnasedd, gwerth a thrylwyredd rhai cymwysterau. Ei gylch gwaith yw ystyried sut i wireddu'r weledigaeth o gymwysterau sy'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi ac sy'n bodloni anghenion ein pobl ifanc ac economi Cymru. Ei gwmpas yw'r holl gymwysterau a gyflenwir i bobl ifanc 14 i 19 oed mewn ysgolion, colegau a lleoliadau seiliedig ar waith. Mae fframweithiau prentisiaeth y tu hwnt i gwmpas yr Adolygiad.

Wrth ystyried cymwysterau, mae'n anochel y cyffyrddir ar agweddau eraill ar bolisi a darpariaeth addysg, fel y cwricwlwm, strategaethau addysgu, cynlluniau dysgu unigol, rheoli ysgolion a cholegau, cyllid a pherfformiad, a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Ni all yr Adolygiad gwmpasu'r holl feysydd hyn, ac mae'r Bwrdd wedi cadw ei ffocws ar y cymwysterau eu hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag Adolygiad Cynllunio a Chyllido Ôl-16 Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod y ddau adolygiad yn gyson y naill â'r llall.

Seilir yr Adolygiad ar ystyriaeth o'r dystiolaeth ac ar farn rhanddeiliaid. Rhwng mis Tachwedd 2011 a mis Mai 2012 bu'r ffocws ar gasglu a dadansoddi llawer o dystiolaeth ac adborth o ystod eang o ffynonellau (gweler yr Atodiad ar dudalen 47 am fanylion).

## A2. Y weledigaeth a'r egwyddorion

### A2.1 Gweledigaeth hirdymor ar gyfer cymwysterau 14–19 yng Nghymru

Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am eich ymateb i weledigaeth y Bwrdd ar gyfer y system gymwysterau i bobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru, sef y dylai:

- fod yn glir ac yn syml, ac yn seiliedig ar raglenni dysgu cydlynol
- rhoi i ddysgwyr gymwysterau sy'n berthnasol, sy'n cael eu gwerthfawrogi ac sy'n cael eu cydnabod yn rhyngwladol
- cynorthwyo i ysgogi gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd

- sicrhau y cynhelir asesiadau cadarn, dilys a chymesur
- bod yn gymorth i ennyn diddordeb ac annog pob dysgwr
- darparu mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth, a chyda sicrwydd ansawdd
- dros amser, rhoi mwy o gyfle i ddysgwyr ddilyn cymwysterau pan fyddant yn barod i wneud hynny yn hytrach na phan fyddant yn cyrraedd oedran penodol
- bodloni anghenion Cymru.

Trafodir yr egwyddorion hyn yn adrannau A2.2–A2.10 (tudalennau 7–13).

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth a'r egwyddorion a nodir yn A2.1?
Beth fyddech chi'n ei ychwanegu neu'n ei newid, os o gwbl?

Bydd gwireddu'r weledigaeth yn cymryd amser a bydd angen i hynny ddigwydd yn raddol. Gall newid yn frysiog ym maes cymwysterau fod yn beryglus, ac yn niweidiol i ddysgwyr. Yng ngham nesaf ei waith, bydd y Bwrdd yn datblygu llinell amser ar gyfer newid yn rhan o'i argymhellion i Lywodraeth Cymru.

### A2.2 System glir a syml yn seiliedig ar raglenni dysgu cydlynol

Mae'r tirlun cymwysterau yn gymhleth ac yn ddryslyd. Gall fod yn anodd i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, cyflogwyr ac eraill wybod beth yw ystyr cymwysterau penodol, neu pa mor werthfawr a pherthnasol yr ydynt i yrfa neu i unigolyn neilltuol.

Mae rhywfaint o gymhlethdod yn anochel, ond mae'r Bwrdd o'r farn fod y system bresennol yng Nghymru yn rhy gymhleth ac yn cynnwys gormod o gymwysterau. Rydym yn bwriadu argymell system symlach y gall pawb ei deall, sy'n cynnwys llai o gymwysterau a rhaglenni dysgu sydd yn fwy cydlynol ac wedi'u personoli.

Mae pobl ifanc sy'n cael swydd yn ystod y blynyddoedd nesaf yn debygol o newid swydd, rôl, lleoliad a gyrfa sawl gwaith. Bydd angen iddynt fod yn hyblyg. Yn hytrach na'u hyfforddi ar gyfer swydd benodol yn yr ysgol neu'r coleg, byddai'n well rhoi sgiliau craidd cryf a throsglwyddadwy iddynt, ynghyd â gwybodaeth a dealltwriaeth

eang a'r gallu i ddysgu a datblygu. Dylai'r system gymwysterau felly hyrwyddo'r ymagwedd eang hon at addysg, gan gynnwys sgiliau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth a chyflogadwyedd. Gellid cael elfen fwy o arbenigo ôl-16, a dylai'r arbenigo hwnnw fod yn ddigon i ennyn brwdfrydedd dysgwyr a'u paratoi i symud ymlaen i'r cam nesaf, ond dylai'r dysgu fod wedi'i seilio mewn rhaglen ddysgu eang.

Nod y cynigion yn y papur hwn yw hyrwyddo rhaglenni dysgu cydlynol sy'n arwain at ddilyniant i'r cam nesaf, yn hytrach na gwobrwyo am 'bentyrru' llawer o gymwysterau tebyg ar yr un lefel, neu am ailadrodd yr hyn a ddysgir mewn gwahanol gymwysterau.

**Cwestiwn ymgynghori**

Sut y gellid gwneud y system gymwysterau'n symlach ac yn fwy cydlynol?

### A2.3 Cymwysterau perthnasol, sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod yn rhyngwladol

Ar gyfer yr Adolygiad:

- ystyrir **perthnasedd** cymwysterau o safbwynt cyflogwyr a sefydliadau addysg y cyfnod nesaf. Cymwysterau **perthnasol** yw'r cymwysterau hynny sy'n arwain at y dilyniant cyflymaf mewn addysg neu at gyflogaeth gysylltiedig, ac sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer hynny
- ystyrir **gwerth** cymwysterau o safbwynt y dysgwr. Cymwysterau **gwerthfawr** yw'r cymwysterau hynny sy'n ennyn diddordeb y dysgwr ac yn annog cyfranogiad mewn addysg bellach neu uwch, hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn adran A3.7 ac yn Rhan B, mae'r Bwrdd yn gofyn barn ynghylch cynigion i sicrhau bod cymwysterau perthnasol a chanddynt werth ar gael i ddysgwyr yng Nghymru, a bod dysgwyr yn dilyn y cymwysterau hynny.

Mae'n hanfodol sicrhau bod cymwysterau a enillir gan ddysgwyr yng Nghymru'n parhau i fod yn gyfredol a chystadleuol, yn y marchnadoedd addysg uwch a chyflogaeth. Mae cymwysterau'n basbort i ddysgu pellach neu gyflogaeth. Rhaid iddynt gael eu cydnabod a'u parchu ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn golygu defnyddio neu ddatblygu brandiau cryf ac enw da.

Yn y tymor byr i ganolig, ceir dadl o blaid adeiladu ar frandiau presennol, fel TGAU a Safon Uwch, sy'n cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ar draws y DU ac yn rhyngwladol. Byddai hyn yn golygu y byddai dysgwyr yng Nghymru yn parhau i dderbyn TGAU, Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol adnabyddus, yr un peth â dysgwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (ond mewn rhai achosion, gyda strwythur neu gynnwys gwahanol). Yn y tymor hirach, ceir dadl o blaid ystyried mathau newydd o gymhwyster.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid cadw brandiau presennol fel TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol (fel BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol OCR neu City and Guilds) yng Nghymru, yn y tymor byr i ganolig?

### A2.4 Gwelliannau mewn llythrennedd a rhifedd

Mae'n amlwg bod yn rhaid i lythrennedd a rhifedd fod yn rhan gwbl ganolog o'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae i gymwysterau 14–19, a weithredir ochr yn ochr â chwricwlwm priodol, ac sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm hwnnw, rôl o ran annog datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd. Rhaid i gymwysterau hefyd ddarparu gwybodaeth glir, gywir a defnyddiol am lythrennedd neu rifedd dysgwr. Mae'r Bwrdd wedi clywed sylwadau cryf ynglŷn â'r ffaith nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

Ceir cynigion yn Rhan B y papur hwn i newid y cymwysterau a ddefnyddir i asesu llythrennedd a rhifedd yn 14–19 oed, a'i gwneud yn ofynnol bod dysgwyr nad ydynt wedi cyflawni Lefel 2 (er enghraifft A*–C mewn TGAU perthnasol) mewn llythrennedd a rhifedd erbyn 16 oed yn parhau i weithio tuag at y rhain, gyda chefnogaeth briodol.

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau y mae'r gyfres bresennol o gymwysterau 14–19:

(a) yn rhoi digon o anogaeth i ddatblygu llythrennedd a rhifedd?
(b) yn rhoi gwybodaeth glir am lythrennedd a rhifedd unigolyn?

## A2.5 Asesu cadarn, dilys a chymesur

Mae rhanddeiliaid wedi mynegi barn bod yn rhaid i gymwysterau fod yn ddigon trylwyr er mwyn asesu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc yn briodol. Gall diffyg trylwyredd, neu'r canfyddiad ohono, fod yn niweidiol i gymwysterau. Rhaid i'n dull o sicrhau ansawdd cymwysterau yn y dyfodol sicrhau bod yr asesu'n gadarn ac yn ddilys, ac yn ymddangos felly.

Mae'r dull o asesu cymwysterau yn fater technegol ac ymdrinnir ag ef yn fanwl yn Rhan B. Un thema gyffredin yw a ddylid cael pwyslais cryfach ar allanoldeb ym mhob cymhwyster, neu ym mhob rhan o bob cymhwyster. Cred y Bwrdd nad arholiadau a phrofion allanol yw'r unig ffyrdd o sicrhau trylwyredd ac o sicrhau elfen allanol ddigonol wrth asesu. Gall trefniadau cadarn i sicrhau ansawdd wrth farcio'n fewnol ac/neu reolaethau llymach gan sefydliadau dyfarnu ar osod tasgau'n fewnol ac ar yr amgylchiadau wrth gyflawni tasgau hefyd fod yn fodd i gynyddu'r trylwyredd.

Dros amser, byddai'r Bwrdd yn dymuno gweld mwy o le yn y cwricwlwm ar gyfer dysgu a mwynhau dysgu, drwy leihau baich yr asesiadau yn 14–19 oed. Mae cymwysterau allanol ac asesiadau ysgol yn arfau defnyddiol er mwyn arddangos a mesur cyflawniad addysgol, a gallant fod yn ysgogiad cryf i ddysgu. Fodd bynnag, ni ddylid lleihau addysg yn broses o 'addysgu ar gyfer profion', ac ni ddylai'r manylebau ar gyfer asesu a chymwysterau lywio'r profiad addysgol.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid cael elfen gryfach allanol wrth asesu ac/neu sicrhau ansawdd yr holl gymwysterau (drwy un neu fwy o'r dulliau a awgrymir uchod)?

A ddylid lleihau cyfanswm yr asesu ar gyfer 14–19?

## A2.6 Ennyn diddordeb ac ysgogi pob dysgwr

Dylai cymwysterau yng Nghymru fodloni'r gwahanol anghenion sydd gan ein holl ddysgwyr, gan eu galluogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach (gan gynnwys addysg uwch) a'u galluogi i gystadlu'n rhyngwladol. Dylent hefyd sicrhau bod rhai sy'n cyflawni ar lefel is yn cael eu cynnwys a'u hannog. Mae hyn yn golygu cadw cydbwysedd anodd rhwng trylwyredd a safonau addysg a'r gallu i

ennyn diddordeb, annog ac ymgysylltu â phob dysgwr er mwyn iddo wireddu ei botensial. Dylai'r cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu roi adlewyrchiad cywir o gyrhaeddiad a gwahaniaethu rhwng lefelau sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

**Cwestiwn ymgynghori**

Sut y gall y system gymwysterau helpu i ennyn diddordeb ac ysgogi pob dysgwr?

### A2.7 Mynediad at gymwysterau cyfrwng Cymraeg a Saesneg

Mae Cymru yn genedl ddwyieithog, ac mae ystyriaethau cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'r seilwaith cymwysterau ac o'r Adolygiad hwn. Bydd y Bwrdd yn ystyried goblygiadau unrhyw newidiadau a gynigir ganddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd lleihau nifer y cymwysterau 14–19 sydd ar gael yn ei gwneud yn haws sicrhau bod y cymwysterau mwyaf perthnasol a gwerthfawr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tyfu ond nid oes digon o alw eto i adael i'r ddarpariaeth fod yn ddibynnol ar rymoedd y farchnad. Mae'r Bwrdd o'r farn y bydd angen i Lywodraeth Cymru barhau i roi cefnogaeth i sefydliadau dyfarnu ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw'r materion allweddol yn gysylltiedig â darparu cymwysterau 14–19 drwy gyfrwng y Gymraeg?

### A2.8 Ar sail tystiolaeth a chyda sicrwydd ansawdd

Er mwyn sicrhau ansawdd a chynaliadwyedd y system gymwysterau, mae'r Bwrdd yn archwilio'r syniad o gael dull adolygu parhaus er mwyn sicrhau bod cymwysterau a rhaglenni dysgu unigol yn addas i'r diben. Datblygir hyn yng ngham nesaf yr Adolygiad. Yn Rhan B y papur hwn, ceisir barn ynghylch cynnwys cyflogwyr ac eraill wrth ddatblygu cymwysterau, ac ynghylch materion sy'n ymwneud â pherthnasedd, gwerth a rheoleiddio.

Mae gwaith yr Adolygiad wedi datgelu bod y dystiolaeth sydd ar gael ynghylch cyrchfannau, deilliannau a dilyniant dysgwyr mewn perthynas â chymwysterau yn aml yn annigonol. Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn ddigon hygyrch, neu ni wneir defnydd digonol ohoni.

Mae sawl darn o waith ar y gweill i roi sylw i hyn, gan gynnwys cynigion i gyflwyno Rhif Unigryw'r Dysgwr i olrhain unigolion drwy'r system, a gwaith i wella hygyrchedd a'r dull o ddehongli Gwybodaeth am y Farchnad Lafur, a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth honno. Bydd yr Adolygiad yn argymell cefnogi a datblygu'r gwaith hwn cyn gynted ag y bo modd.

Dylai darparwyr ddefnyddio dadansoddiadau o wybodaeth am gyrchfannau yn sail wrth benderfynu pa opsiynau i'w cynnig i gohortau dilynol. Dylai'r dadansoddiadau hynny fod o gymorth i unigolion wrth ddewis cymwysterau a gyrfaoedd (gweler A3.7). Ar raddfa Cymru, bydd cael gwell gwybodaeth am werth a pherthnasedd cymwysterau wrth ddysgu neu ar lwybrau dysgu yn y dyfodol yn fodd i wella polisi. Yn y tymor hwy, gellid cynnwys data cyrchfan wrth fesur perfformiad ysgolion, ond nid yw'r Bwrdd yn fodlon bod data addas ar gael eto i wneud y dull hwn yn bosib neu'n deg.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth fyddai'r dull gorau i ni sicrhau bod cymwysterau'n addas i'r diben?

Sut y gellid gwella'r dystiolaeth am gyrchfannau, deilliannau a dilyniant dysgwyr mewn perthynas â chymwysterau?

### A2.9 Cyfnodau yn hytrach nag oedrannau

Dros amser, byddai'r Bwrdd yn dymuno gweld symudiad graddol tuag at sefyllfa lle bydd dysgwyr yn dilyn cymwysterau ac yn symud ymlaen i'r cyfnod nesaf pan fyddant yn barod i wneud hynny, yn hytrach nag ar oedran penodol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch opsiynau i sicrhau bod dysgwyr yn gweithio tuag at gymwysterau llythrennedd a rhifedd fel bo'n briodol drwy gydol y cyfnod 14–19 (gweler adran A2.4). Mae hefyd yn ceisio barn ynghylch cymwysterau newydd fel camau tuag at gymwysterau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg Iaith a Mathemateg, a allai olygu symud tuag at sefyllfa lle byddai rhai dysgwyr yn cael mwy o amser i gyrraedd y lefel ofynnol (gweler adran B5.3). Gellid cefnogi hyn drwy ymestyn Cyfnod Allweddol 4 yn ôl i Flwyddyn 9 er enghraifft, fel bo modd dechrau'r cynnydd tuag at gymwysterau'n gynharach. Mae rhai ysgolion eisoes yn defnyddio'r dull hwn, a byddai'r Bwrdd yn croesawu gwerthusiad o'r manteision a'r anfanteision cysylltiedig.

Ymhen amser, gallai rhesymau economaidd a diwylliannol sy'n achosi i fwy o bobl aros ym myd addysg tan iddynt droi'n 18 oed, yn hytrach nag 16 oed, leihau arwyddocâd cymwysterau allanol yn 16 oed (fel TGAU). Mae nifer o wledydd Ewropeaidd eisoes yn rhoi pwyslais ar gymwysterau pan fydd dysgwyr yn 18 oed, a rhai ohonynt heb gymwysterau allanol yn 16 oed. Mae'r Bwrdd yn credu y gallai hyn esgor ar fanteision, ond na ddylid gorfodi newidiadau'n rhy gyflym, ac y dylid cadw cymwysterau allanol (fel TGAU) ar gyfer dysgwyr 16 oed am y tro.

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau y dylai pobl ifanc gael dilyn cymwysterau pan fyddant yn barod i wneud hynny, yn hytrach nag ar oedran disgwyliedig?

A ddylid cadw cymwysterau allanol (fel TGAU) ar gyfer dysgwyr 16 oed yng Nghymru yn y tymor byr i ganolig o leiaf?

### A2.10 Bodloni anghenion Cymru

Dylai'r system gymwysterau fodloni anghenion ein dysgwyr a'n heconomi. Yn gyffredin â gwledydd eraill, yr ydym yn wynebu cyfnod economaidd anodd ac mae angen i ni sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael y paratoad gorau bosib er mwyn ymateb i ofynion y farchnad swyddi. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Bwrdd yn credu bod angen system gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed sydd wedi'i chynllunio'n arbennig i fodloni anghenion addysgol, cymdeithasol ac economaidd Cymru. Bydd yr anghenion yn cynnwys sgiliau neu sectorau economaidd penodol, ac yn seiliedig ar Wybodaeth am y Farchnad Lafur a thystiolaeth arall.

Cwestiwn a godai droeon mewn llawer cyd-destun yn ystod yr Adolygiad oedd i ba raddau y dylai cymwysterau yng Nghymru gyd-fynd â'r rhai yn Lloegr, ac a ddylid caniatáu iddynt ymwahanu oddi wrth gymwysterau yn Lloegr, os oes rheswm da dros hynny.

Yn y gorffennol, roedd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhannu un gyfundrefn addysg ac un gyfres o gymwysterau, ond mae hyn wedi dechrau newid ers datganoli. Bellach, mae rhai mathau o gymwysterau'n bodoli yn un o'r tair gwlad, ond heb fod yn bodoli yn y ddwy wlad arall. Ymhlith y datblygiadau polisi a oedd yn unigryw i Gymru, cafwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Llwybrau Dysgu 14–19, Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru, cwricwlwm cenedlaethol unigryw i Gymru a Sgiliau Hanfodol Cymru.

Yn ystod yr un cyfnod bu datblygiadau yn Lloegr na chawsant eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, nid yw newidiadau diweddar i'r TGAU yn Lloegr wedi bod yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru, sy'n golygu nad oes rhaid i gymwysterau TGAU y ddwy wlad gyfateb yn union â'i gilydd. Nid yw newidiadau yn Lloegr o reidrwydd yn adlewyrchu amcanion polisi Llywodraeth Cymru, fel cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol.

Mae'r Bwrdd Adolygu wedi casglu:

- bod gwahaniaeth eisoes i'w gael rhwng Cymru a Lloegr mewn nifer o gymwysterau
- bod angen i ni ganiatáu ymwahanu pellach lle bo angen er mwyn bodloni anghenion Cymru
- y gall ymwahanu gynnig mwy o gyfleoedd na bygythiadau mewn perthynas â rhai cymwysterau, ac y gellir cymryd camau i fynd i'r afael â'r risgiau dan sylw.

Mae'r cyfleoedd a gyflwynir yn sgil ymwahanu pellach yn cynnwys y gallu i ddiffinio blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau sy'n briodol i Gymru, gan gynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chymwysterau i adlewyrchu ein cwricwlwm. Mae'n ein galluogi i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag yn adweithiol o ran datblygiad, gweithrediad a graddfeydd amser polisïau. Bydd y gallu i reoli cymwysterau yn agosach yn caniatáu i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid weithio tuag at sicrhau'r lefelau uchaf o ansawdd a thrylwyredd ar gyfer cymwysterau yng Nghymru, er enghraifft drwy feincnodi yn erbyn cymwysterau yng ngweddill y DU ac mewn gwledydd eraill sy'n perfformio'n dda. Efallai fod lle i gydweithio mwy â Gogledd Iwerddon a'r Alban mewn perthynas â chymwysterau.

Mae'r risgiau yn cynnwys bygythiadau i'r canfyddiad o gymwysterau a gyflawnir gan ddysgwyr yng Nghymru, er enghraifft o ganlyniad i sylwebaeth wleidyddol neu sylwebaeth yn y cyfryngau. Mae'r cynigion ar gyfer mynd i'r afael â hyn yn adran A3.7. Mae maint y farchnad gymwysterau yng Nghymru yn gosod heriau: efallai na fydd gan rai sefydliadau dyfarnu ddiddordeb mewn datblygu cymwysterau i Gymru yn unig. Dylid nodi y byddai ymwahanu'n lleihau gallu Llywodraeth Cymru i gymharu lefel cyrhaeddiad rhwng Cymru a Lloegr yn uniongyrchol ar raddfa genedlaethol, ond nid yw'r Bwrdd o'r farn y dylai hyn ysgogi polisïau.

Trafodir materion penodol mewn perthynas ag ymwahanu a datblygu cymwysterau wedi'u dylunio ar gyfer Cymru drwy gydol y papur hwn, er enghraifft yn yr adrannau sy'n ymdrin â TGAU, Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol a mesur perfformiad ysgolion. Yn y cwestiwn canlynol byddai'r Bwrdd yn awyddus i gael sylwadau ynghylch yr egwyddor sylfaenol.

**Cwestiwn ymgynghori**

**Yn ôl yr hyn yr ydych chi'n ei ddeall, beth yw anghenion Cymru mewn perthynas â chymwysterau 14–19?**

**I ba raddau ydych chi'n credu y dylid caniatáu i gymwysterau 14–19 ymwahanu oddi wrth gymwysterau Lloegr, er mwyn bodloni anghenion Cymru'n well?**

## A3. Cynigion a materion allweddol

### A3.1 Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd o'r farn bod gwerth a pherthnasedd i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, y dylid datblygu a hyrwyddo'r cymhwyster ymhellach, ac y dylid, yn y pen draw, ei fabwysiadu'n gyffredinol ar gyfer dysgwyr 14–19 oed ledled Cymru.

Cymhwyster cyffredinol a gynigir ar dair lefel yw Bagloriaeth Cymru: Sylfaen, Canolradd (dilynir y ddwy lefel yn 14–16 oed fel arfer) ac Uwch (a ddilynir yn 16+ oed fel arfer). Mae wedi ennill cydnabyddiaeth a'r defnydd ohono wedi cynyddu mewn cyfnod cymharol fyr: o gael ei gyflwyno fel cynllun peilot yn 2003 i fod yn gymhwyster a ddilynir gan 70,000 o ddysgwyr yn 2011/12. Ceir mwy o fanylion yma am strwythur Bagloriaeth Cymru.

Bu'r adborth i'r Adolygiad yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch Bagloriaeth Cymru. Mae rhanddeiliaid yn hoffi'r defnydd o gymwysterau sefydledig yn ei opsiynau, datblygiad sgiliau (gan gynnwys profi agweddau ar lythrennedd a rhifedd) yng Nghraidd y cymhwyster, ynghyd ag elfennau y mae cyflogwyr a phrifysgolion yn rhoi gwerth arnynt, fel profiad gwaith, cyfranogiad cymunedol ac ymchwil annibynnol.

Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi mynegi amheuon am Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys pryderon ynghylch trylwyredd, y dull o asesu rhai o'i elfennau, a'i berthnasedd i addysg uwch a chyflogaeth. Drwy'r ymgynghoriad hwn, dymunai'r Bwrdd gael darlun cliriach o farn pobl ynghylch Bagloriaeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn ystyried y cysyniad o gael cymhwyster cyffredinol ar gyfer Cymru: cyfres o ofynion sy'n sicrhau bod pobl ifanc yn cael addysg gyflawn a chydlynol, yn hytrach na chasgliad o gymwysterau'n unig. Byddai'n darparu trothwyon sylfaenol ar wahanol lefelau ac yn galluogi pobl ifanc i 'fatriciwleiddio' gan gyflawni lefel ragnodedig mewn cymysgedd gytbwys o gymwysterau pwnc, llythrennedd a rhifedd, dealltwriaeth o'r byd a'r gymdeithas o'u cwmpas ynghyd â sgiliau bywyd, dysgu a gwaith.

Ar ôl ystyried yr holl opsiynau, gan gynnwys y Fagloriaeth Ryngwladol a chymwysterau Bagloriaeth eraill, mae'r Bwrdd o'r farn mai'r sylfaen amlwg ar gyfer datblygu'r cysyniad hwn yng Nghymru yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mae'r Bwrdd yn awyddus i archwilio'r syniad hwn ac i ddeall yr hyn y gellid bod angen ei newid yng ngofynion Bagloriaeth Cymru o ran elfennau, lefelau a chyfundrefnau asesu. Mae'r Bwrdd hefyd am ddeall y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid o'r fath, a dysgu gwersi o fannau eraill, gan gynnwys profiadau diweddar gyda'r Diploma 14–19 yn Lloegr. Trafodir graddio Bagloriaeth Cymru yn adran B5.1 (ar dudalen 29).

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw eich barn ynghylch cynnwys, darpariaeth, perthnasedd a gwerth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar ei ffurf gyfredol?

Beth yw eich barn ynghylch datblygu Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ymhellach fel cymhwyster cyffredinol Cymru?

Sut yr hoffech chi weld Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn newid neu'n datblygu?

I ba raddau y dylai Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gael ei fabwysiadu'n gyffredinol gan ddysgwyr yng Nghymru?

### A3.2 TGAU

Ers blynyddoedd lawer, TGAU yw'r prif gymwysterau a ddilynir ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Cânt eu cydnabod yn eang gan gyflogwyr, a'u defnyddio fel dangosydd gallu wrth ystyried dilyniant dysgwyr i addysg bellach, addysg uwch neu brentisiaethau. Cymwysterau TGAU hefyd yw asgwrn cefn dangosyddion perfformiad ysgolion.

Yn bresennol, mae'r Bwrdd o'r farn y dylai Cymru barhau, am y tro, i ddefnyddio cymwysterau TGAU fel y brif gyfres o gymwysterau i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn y tymor hirach efallai y ceir dadl o blaid ailystyried y pwyslais ar gymwysterau allanol yn 16 oed (gweler adran A2.9, tudalen 12). Fodd bynnag, mae'r Adolygiad yn debygol o gasglu y dylai TGAU barhau â'i rôl ganolog bresennol, a hynny, yn ôl pob tebyg, oddi mewn i gymhwyster cyffredinol, sef Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (gweler adran A3.1, tudalen 15).

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dilyn rhaglenni astudio sy'n adeiladu ar eu dysgu o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3, ac yn dilyn cymwysterau sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm ac yn ymgorffori'r dulliau gorau posibl o asesu, cred y Bwrdd ei bod hi'n ddigon posib y bydd angen i gymwysterau TGAU yng Nghymru yn y dyfodol fod yn wahanol, o ran cynnwys ac asesu, i'r rhai a gynigir yn Lloegr.[1]

**Cwestiwn ymgynghori**

Pa un o'r tri opsiwn canlynol ar gyfer cymwysterau 14–16 fyddai'n bodloni anghenion dysgwyr yng Nghymru orau yn eich barn chi?

i. Cymwysterau cwbl newydd a thrwyadl o ansawdd uchel (nad ydynt yn cael eu galw'n gymwysterau TGAU) ar gyfer dysgwyr 14–16 oed sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm yng Nghymru.
ii. Bod Cymru'n cadw TGAU fel enw brand, ond yn datblygu cymwysterau TGAU trwyadl o ansawdd uchel i Gymru'n unig, sy'n adlewyrchu'r cwricwlwm yng Nghymru.
iii. Bod Cymru'n mabwysiadu datblygiadau TGAU wrth iddynt ddod i'r amlwg yn Lloegr.

Mae adran B5 y papur hwn yn gwahodd sylwadau ar faterion mwy technegol sy'n ymwneud â TGAU, gan gynnwys asesu, haenu a chymwysterau Lefel 1, a nifer y pynciau TGAU a ddilynir gan ddysgwyr unigol.

### A3.3 Safon Uwch

Mae'r Bwrdd o'r farn y dylid cadw Safon Uwch yn sylfaen ar gyfer cymwysterau cyffredinol ar Lefel 3 yng Nghymru ar hyn o bryd. Yng ngham cyntaf yr Adolygiad, ni chafwyd unrhyw awgrymiadau gan

---

[1] Mae Llywodraeth Cymru (ynghyd â Llywodraeth Lloegr a Gogledd Iwerddon) yn berchen ar y teitl TGAU a'r hawl i ddyfarnu'r teitl hwnnw i gymwysterau sydd, ym marn y Llywodraeth, yn bodloni'r meini prawf o ran maint a safon. Nid oes unrhyw beth i atal cymwysterau TGAU yn un o'r tair gwlad rhag bod yn wahanol i gymwysterau TGAU yn y gwledydd eraill. Gall TGAU adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y cwricwlwm a chynnwys cyfundrefnau asesu gwahanol, ac mae hynny'n digwydd eisoes mewn rhai achosion.

randdeiliaid i bellhau oddi wrth Safon Uwch, ac ymddengys fod cydnabyddiaeth gref o'r brand a theyrngarwch iddo. Fodd bynnag, bu cryn drafod ar Safon Uwch yn y cyfryngau yn y misoedd diwethaf, er enghraifft o ran faint o arbenigo a geir ynddynt. Byddem felly'n croesawu eich barn ynghylch Safon Uwch yng Nghymru.

**Cwestiwn ymgynghori**

A yw cymwysterau Safon Uwch yn addas i'r diben ar gyfer pobl ifanc 16–19 oed yng Nghymru?

Yn adran B5 y papur hwn ceisir barn ynghylch materion asesu sy'n gysylltiedig â Safon Uwch.

### A3.4 Cymwysterau galwedigaethol

Mae'r Bwrdd yn deall bod llawer o gymwysterau galwedigaethol yn werthfawr a pherthnasol. Dilyn llwybr addysg galwedigaethol yw'r dewis gorau i lawer o bobl ifanc. Mae cynnwys elfen alwedigaethol yn y gymysgedd o gymwysterau yn briodol i lawer o rai eraill. Yn y gorffennol, cafwyd dadlau ynglŷn â'r parch cymharol a roddir i gymwysterau cyffredinol a galwedigaethol. Nid yw'r Bwrdd am i'r Adolygiad o Gymwysterau dreulio amser ar y ddadl hon, ac mae'n gweithio o'r rhagosodiad y gall cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol, y naill a'r llall, fod yn berthnasol ac yn werthfawr i ddysgwyr unigol ac i gyflogwyr. Ffocws yr Adolygiad yw sicrhau bod y cymwysterau sydd ar gael, p'un a ydynt yn rhai galwedigaethol, cyffredinol neu gymysgedd o'r ddau, o ansawdd uchel ac yn gadarn, a bod gan ddysgwyr, cyflogwyr a darparwyr ddealltwriaeth glir o'u perthnasedd a'u gwerth. Yn dilyn newidiadau diweddar yn Lloegr, mae'n arbennig o bwysig bod yr Adolygiad o Gymwysterau yn rhoi cefnogaeth glir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol; ni ddylid bod unrhyw argyfwng o hyder mewn addysg alwedigaethol yng Nghymru.

Yn ogystal â'r ffaith bod iddynt werth cynhenid, cred y Bwrdd fod pynciau galwedigaethol, yn enwedig pynciau ymarferol, yn gallu ysgogi a chynnwys rhai dysgwyr a allai fel arall golli diddordeb mewn addysg.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw'r materion allweddol o ran cymwysterau galwedigaethol 14–16 ac 16–19?

Yn Rhan B y papur hwn, ceir rhai cynigion a chwestiynau manwl am gymwysterau galwedigaethol, gan gynnwys y mathau a'r niferoedd sy'n briodol ar gyfer 14–16 a 16–19, yr ymdriniaeth â chymwysterau galwedigaethol wrth fesur perfformiad ysgolion, materion asesu a'r posibilrwydd o ddefnyddio'r brand TGAU ar gyfer cymwysterau galwedigaethol.

### A3.5 Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach

Cyflwynwyd Sgiliau Hanfodol Cymru ym mis Medi 2010, gan ddisodli rhai cymwysterau Sgiliau Allweddol a Sgiliau Sylfaenol. Eu nod oedd darparu un ysgol ddilyniant mewn sgiliau Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif, a Thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Bwriedir iddynt fod yn berthnasol i bob oedran, i bob gallu ac i bob cyd-destun. Ar y cyfan, bu sylwadau rhanddeiliaid ynglŷn â'r cymwysterau yn gadarnhaol hyd yma. Mae'r Adolygiad yn cynnig cyfle i bwyso a mesur barn pobl ynghylch Sgiliau Hanfodol Cymru.

Mae cymwysterau Sgiliau Allweddol Ehangach yn asesu sgiliau Gweithio Gydag Eraill, Gwella'ch Dysgu a'ch Perfformiad Eich Hun, a Datrys Problemau. Mae'r Adolygiad wedi canfod cytundeb cyffredinol bod y sgiliau hyn yn berthnasol ac o werth, ond wedi nodi diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gyfres gymwysterau ar gyfer Sgiliau Allweddol Ehangach.

Trafodir Asesu Sgiliau Hanfodol Cymru a materion sy'n ymwneud â'r Sgiliau Allweddol Ehangach yn adran B5 y papur hwn (tudalen 29).

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau y mae cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru'n berthnasol ac yn cael eu gwerthfawrogi?

I ba raddau y mae cymwysterau Sgiliau Allweddol Ehangach yn berthnasol ac yn cael eu gwerthfawrogi?

### A3.6 Pynciau STEM

Mae rhanddeiliaid, yn enwedig cyflogwyr a'u cynrychiolwyr fel y CBI a Ffederasiwn y Busnesau Bach, wedi codi pryderon ynghylch pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg). Mae'r pynciau hyn o bwysigrwydd strategol i'r economi. Maent hefyd o fudd amlwg i ddysgwyr o ran dilyniant i addysg uwch a chyflogaeth, ac o ran adenillion ariannol ar hyd oes y dysgwr. Mae llawer yn eu hystyried yn faes lle cafwyd tanddatblygu. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch sut y gallai cymwysterau 14–19 oed ysgogi gwelliannau yn y maes hwn.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid rhoi mwy o bwyslais ar bynciau STEM yn y cyfnod 14–19?

Os felly, sut y gallai'r system gymwysterau gyfrannu at hyn?

### A3.7 Cyfathrebu

Mae'r Bwrdd yn bwriadu argymell bod Llywodraeth Cymru yn lansio ymgyrch gyfathrebu fawr a hirdymor. Drwy'r ymgyrch, dylid anelu i gynyddu dealltwriaeth cyflogwyr, prifysgolion, dysgwyr a'u teuluoedd, athrawon, darlithwyr, aseswyr dysgu seiliedig ar waith a'r cyhoedd o'r fframwaith cymwysterau sydd ar waith yng Nghymru, a chynnig mynediad rhwyddach at wybodaeth well.

Dylai'r ymgyrch gyfathrebu ymestyn y tu hwnt i Gymru, gan gynnwys holl brifysgolion y DU a chyfryngau'r DU, er enghraifft, i hyrwyddo statws cymwysterau yng Nghymru. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dilyn llwybr sy'n wahanol i gyfeiriad Lloegr, bydd angen esbonio a hybu'r cymwysterau a ddilynir yng Nghymru.

Mae gwybodaeth glir a hygyrch yn hanfodol i ddysgwyr sy'n dewis cymwysterau yn 14 ac yn 16 oed. Mae rhanddeiliaid wedi pwysleisio bod angen gwybodaeth ddiduedd o ansawdd da ar bobl ifanc a'r rhai sy'n eu cynghori, gan gynnwys cyrchfannau nodweddiadol pobl ifanc sy'n ennill pob cymhwyster. Bob blwyddyn, bydd rhai dysgwyr yn newid cwrs neu'n cefnu ar addysg yn 17 oed. Mae'n naturiol i rai benderfynu newid cyfeiriad yn yr oedran hwn, ond mae'n bosib bod rhai ohonynt wedi gwneud y dewisiadau anghywir yn 16 oed. Lle bo gwybodaeth ar gael, er enghraifft ar wefannau Cynghorau Sgiliau Sector, am y cymwysterau mwyaf perthnasol ar gyfer dilyniant ym mhob sector economaidd, ceir tystiolaeth nad yw dysgwyr 16–19 yn cyrchu'r wybodaeth honno.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru lansio ymgyrch gyfathrebu fawr ynghylch cymwysterau yng Nghymru, ar ôl sefydlu ei pholisi newydd?

A oes gennych awgrymiadau ynghylch negeseuon yr ymgyrch a sut i'w gwneud yn effeithiol?

Sut y gellid rhoi cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor gwell i ddysgwyr wrth iddynt ddewis cymwysterau yn 14 ac yn 16 oed?

# Rhan B: Materion technegol ac arbenigol

## B1. Diben cymwysterau

Dechreuwyd ar waith y Bwrdd drwy ystyried diben cymwysterau. Cytunai'r aelodau mai prif ddiben cymwysterau 14–19 yw gwahaniaethu rhwng lefelau sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth unigolion, a darparu gwybodaeth am yr agweddau hynny, er mwyn cael mynediad i'r cam nesaf mewn addysg neu gyflogaeth.

Er bod y Bwrdd yn deall beth yw prif ddiben cymwysterau, teimla'n gryf fod yn rhaid dylunio a chyflenwi cymwysterau mewn modd sy'n cefnogi cynhwysiant ac ymgysylltiad â phob unigolyn ifanc, ac sy'n galluogi i bobl ifanc wireddu eu potensial llawn. Mae hyn yn golygu cael cymwysterau lefel Mynediad a Lefel 1 addas (gweler adrannau B5.3 a B5.11, tudalennau 30 a 38), a rhai cymwysterau a allai fod yn isel o ran perthnasedd, ond o werth uchel i'r dysgwr.

## B2. Cyfnodau 14–16 ac 16–19

Er bod gan y Bwrdd ddiddordeb yn y syniad bod pobl ifanc yn dilyn cymwysterau yn ôl eu cyfnod yn hytrach na'u hoedran (gweler adran A2.9, tudalen 12), rydym wedi nodi bod rhanddeiliaid ar y cyfan wedi ystyried y ddau gyfnod o fewn 14–19 fel dau gyfnod gwahanol yn addysg yr unigolyn ifanc, sef 14–16 ac ôl–16. Caiff argymhellion yr Adolygiad eu llunio'n unol â'r dybiaeth bod y ddau gyfnod ar wahân hyn yn parhau am y tro.

### B2.1 Addysg gyffredinol ac eang 14–16

Mae'r duedd i fwy o bobl aros mewn addysg tan iddynt droi'n 18 o leiaf yn golygu bod cymwysterau 14–16 oed erbyn hyn yn paratoi pobl ifanc am astudiaeth bellach yn hytrach na chyflogaeth fel arfer.

Mae'r Bwrdd o'r farn y dylid darparu addysg gyffredinol ac eang yn y cyfnod 14–16. Yn ystod y cyfnod olaf hwn o addysg orfodol (Cyfnod Allweddol 4), dylai dysgwyr gaffael sgiliau gwybyddol ac ymarferol craidd a sgiliau astudio eraill, a gwybodaeth am ystod eang a chytbwys o bynciau, a chael eu profi ar hynny. Dylai llythrennedd a rhifedd fod wrth wraidd y cwricwlwm. Dylai unrhyw gymwysterau galwedigaethol sydd ar gael i bobl ifanc 14–16 oed asesu sgiliau trosglwyddadwy a rhoi cyflwyniad eang i sectorau cyflogaeth yn hytrach na chanolbwyntio ar swydd benodol.

Gallai cymhwyster cyffredinol yn seiliedig ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefelau Sylfaen a Chanolradd ddarparu strwythur ar gyfer hyrwyddo'r cydlyniad hwn yn 14–16 oed, fel y disgrifiwyd yn

adran A3.1. Mae'r papur hwn yn nodi cynigion ar gyfer lleihau nifer y cymwysterau sydd ar gael 14–19 ac yn ceisio barn ynghylch sut y gallai gwybodaeth amdanynt wella a bod yn fwy hygyrch.

Mae cymwysterau'n achredu'r dysgu, felly dylent adlewyrchu'r cwricwlwm. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried golwg ehangach ar y cwricwlwm ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn gyfle i ystyried pa gyrsiau ddylai fod yn orfodol, a pha rai ddylai fod yn ddewisol, a gallai fod o gymorth gyda'r potensial i ddatblygu gofynion Bagloriaeth Cymru ymhellach.

### B2.2 Rhaglenni dysgu cydlynol 16–19

Mae'r ddarpariaeth 16–19 oed yn fwy cymhleth na'r ddarpariaeth 14–16, gyda mwy o ddarparwyr ac amrywiaeth fwy o lwybrau. Caiff pobl ifanc ddilyn llwybrau sy'n alwedigaethol neu'n academaidd yn bennaf, neu'n gymysgedd o'r ddau. Mae'n briodol i ddysgwyr ddilyn rhaglen mwy arbenigol yn yr ystod oedran hon. Fodd bynnag ceir angen o hyd am addysg eang sy'n creu pobl ifanc gyflawn a chanddynt sgiliau cyffredinol trosglwyddadwy ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

Gellid darparu addysg eang o'r fath drwy raglenni astudio sydd wedi'u cynllunio'n dda fel Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch neu fframweithiau prentisiaeth.

Mae fframweithiau prentisiaeth eisoes wedi'u diffinio'n dda a thu hwnt i gylch gwaith yr Adolygiad hwn. Gallai'r gwaith diweddar gan ColegauCymru a Llywodraeth Cymru i ddatblygu Rhaglenni Maes Dysgu lywio cynnwys rhaglenni dysgu eraill fel Cymhwyster Bagloriaeth Cymru diwygiedig ar gyfer dysgwyr 16–19 oed. Hyd yma, ceir Rhaglenni Maes Dysgu mewn 16 o wahanol feysydd galwedigaethol. Mae'r rhain yn sefydlu cyfuniad o gymwysterau a ffafrir ar gyfer dysgwyr sy'n cynorthwyo'r dilyniant i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Maent yn darparu model addawol y gellid ei ddatblygu i godi safonau a sicrhau cysondeb o fewn pynciau ac ar draws Cymru, ac y gellid ei ymestyn i gynnwys cymwysterau cyffredinol 16–19.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu datblygu ei syniadau am y strwythur a'r dulliau o gyflenwi rhaglenni astudio cydlynol ar gyfer 16–19 yng ngham nesaf yr Adolygiad.

Mae cyllid yn ysgogiad cryf i annog cydlynu mewn rhaglenni astudio. Mae'r Adolygiad o Gymwysterau'n debygol o argymell y dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o drefniadau cynllunio a chyllido

darpariaeth ôl-16 gyllido rhaglenni i ddysgwyr unigol, yn hytrach na chymwysterau sengl ar wahân, ac y dylai annog ffocws ar ansawdd yn hytrach nag ar nifer y cymwysterau. Efallai fod lle o fewn rhaglen gytbwys i gyllido rhai elfennau dysgu nad ydynt yn gysylltiedig â chymwysterau neu unedau a asesir yn ffurfiol.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n credu y dylid cyllido a chyflenwi cymwysterau 16–19 drwy raglenni dysgu cydlynol yn hytrach nag fel cymwysterau unigol?

O fewn rhaglen ddysgu gydlynol, a ddylid ei gwneud hi'n bosibl i gynnwys rhai elfennau nad ydynt yn gysylltiedig â chymwysterau neu unedau a asesir yn ffurfiol?

Byddai'r rhaglenni astudio cydlynol yn gweithredu yng nghyd-destun Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Strwythur 'ambarél' sydd i FfCChC, sy'n cydnabod dysgu a datblygu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys addysg uwch, dysgu galwedigaethol a chyffredinol wedi'i reoleiddio, ac unedau dysgu heb eu rheoleiddio a elwir yn Ddysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd (DGOSA). Caiff y rhaglenni astudio cydlynol a gynigir gynnwys unrhyw un o'r elfennau uchod, gan gyfuno craidd o gymwysterau rheoleiddiedig o ansawdd uchel â rhywfaint o hyblygrwydd i fodloni anghenion lleol.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth fu manteision cymwysterau seiliedig ar gredydau i ddysgwyr 14–19 oed?

Beth yw eich barn ynghylch rôl cymwysterau seiliedig ar gredydau o fewn y cwricwlwm 14–19 yn y dyfodol?

Mae'r Bwrdd o'r farn y gellid cefnogi dysgwyr 16–19 yn well wrth baratoi am gymwysterau drwy sicrhau mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg, a bod lle i'r tri sector ôl-16 gydweithio'n fwy effeithiol er budd y dysgwyr. Byddai mwy o hyblygrwydd i athrawon, darlithwyr ac aseswyr dysgu seiliedig ar waith a chanddynt gymwysterau priodol, deithio i addysgu neu roi cefnogaeth i ddysgwyr 16–19 mewn cymysgedd o leoliadau yn galluogi mwy o ddysgwyr i elwa ar eu harbenigedd a'u gwybodaeth dechnegol heb i'r dysgwyr orfod teithio'n helaeth rhwng lleoliadau.

**Cwestiwn ymgynghori**

Mewn perthynas â chymwysterau, sut y gallai ysgolion, colegau a darparwyr cymwysterau seiliedig ar waith gydweithio'n well er budd y dysgwyr?

## B3. Symleiddio

Mae llawer o randdeiliaid wedi dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd deall y system gymwysterau bresennol, a gwybod yr hyn y mae cymhwyster unigol yn ei ddweud am allu unigolyn. Yn rhan A y papur hwn, trafodwyd yr angen am well cyfathrebu ac am wybodaeth gliriach ynghylch cymwysterau (adran A3.7, tudalen 20). Mae'r adran hon yn nodi dull o leihau nifer y cymwysterau sydd ar gael ar gyfer 14–19.

Caiff cymwysterau a gymeradwywyd i'w haddysgu yng Nghymru ac sy'n gymwys i dderbyn arian cyhoeddus eu rhestru ar gronfa ddata chwiliadwy gyhoeddus, sef y Gronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy yng Nghymru (DAQW). Ym mis Ionawr 2012 roedd y DAQW yn cynnwys 11,400 o gymwysterau ar gyfer y grŵp oedran 14–19, ac mae'r nifer yn cynyddu bob blwyddyn. Fel y dangosir isod (adran B3.1, tudalen 25), mae'r ffigwr uchel iawn hwn a ddyfynnir yn aml ychydig yn gamarweiniol: mae nifer y cymwysterau a ddefnyddir mewn gwirionedd yn llai, sef tua 4,000. Serch hynny, mae'r Bwrdd o'r farn y gellid gostwng y nifer hwn o gymwysterau, ac y dylid ymroi i wneud hynny. Yn enwedig, dylai nifer y cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr 14–16 fod yn llawer is. Mae lle i leihau'r niferoedd ar gyfer 16–19, ond hefyd i sicrhau y dilynir y cymwysterau oddi mewn i raglenni dysgu cydlynol.

Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn pennu isafswm y cyrsiau astudio a ddylai fod ar gael o fewn cwricwlwm lleol, ac yn rhan o hyn, isafswm y cyrsiau galwedigaethol. Tri deg cwrs astudio yw'r ffigwr ar hyn o bryd a mae'n rhaid i bump ohonynt o leiaf fod yn gyrsiau galwedigaethol. Bydd unrhyw ostyngiad yng nghyfanswm y cymwysterau ar DAQW yn annhebygol o amharu ar y ffigwr hwn, gan ei bod hi'n debygol y bydd llawer mwy o gymwysterau ar gael i'w hariannu'n gyhoeddus na'r 30 sy'n ofynnol yn y Mesur.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid lleihau nifer y cymwysterau 14–19 a gymeradwyir ar gyfer arian cyhoeddus?

Os felly, pa gymwysterau na ddylid eu darparu mwyach ar gyfer 14–16 ac/neu 16–19?

### B3.1 Lleihau nifer y cymwysterau – ymagwedd cam wrth gam

Ni all y Bwrdd obeithio asesu pob cymhwyster unigol ar DAQW dros gyfnod yr Adolygiad. Mae'r adran hon yn nodi ymagwedd fesul cam i leihau nifer y cymwysterau ac i sicrhau bod y rhai sydd ar gael yn berthnasol ac yn werthfawr.

Eisoes dros gyfnod yr Adolygiad, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo nifer o gamau gweinyddol i leihau nifer y cymwysterau, gan gynnwys dod â dyddiadau terfyn cymeradwy ar DAQW yn eu blaenau ar gyfer cymwysterau nad ydynt wedi cael eu defnyddio dros y tair blynedd blaenorol. Bydd hyn i bob pwrpas yn cael gwared ag o leiaf 7,000 o gymwysterau o DAQW ar gyfer y grŵp oedran hwn, gan symleiddio'r darlun cyffredinol ac eglurhau'r her sy'n weddill.

Mae'r Bwrdd hefyd wedi comisiynu nifer o astudiaethau ar raddfa fechan i archwilio'r potensial ar gyfer lleihau nifer y cymwysterau mewn sectorau galwedigaethol unigol, drwy nodi'r cymwysterau mwyaf perthnasol ym mhob grŵp oedran yn y sectorau hynny. Mae'r astudiaethau yn defnyddio gwaith a wnaed ar gyfer y Rhaglenni Maes Dysgu (gweler adran A2.2, tudalen 7) a byddant yn cynnwys cydweithio agos â'r Cynghorau Sgiliau Sector.

Os yw'r ymagwedd yn effeithiol, gellid ei hymestyn i sectorau eraill, a gellid adolygu pob un o'r 4,000 o gymwysterau byw ar DAQW erbyn 2014, er mwyn creu rhestr lai o gymwysterau wedi'u cymeradwyo ar gyfer arian cyhoeddus ym mhob grŵp oedran. Gallai hefyd hysbysu ynghylch pa gymwysterau sy'n cyfrif tuag at fesurau perfformiad sefydliadol.

Byddai'r Bwrdd yn croesawu sylwadau ar yr ymagwedd hon ac awgrymiadau ynglŷn â'r meini prawf y dylid eu defnyddio ar gyfer cadw cymhwyster.

**Cwestiwn ymgynghori**

Pa feini prawf y dylid eu defnyddio ar gyfer cadw cymhwyster yn y rhestr a gymeradwywyd ar gyfer arian cyhoeddus?

### B3.2 Datblygu a chymeradwyo cymwysterau newydd

Yn dilyn y broses adolygu gychwynnol, byddai angen mabwysiadu ymagwedd newydd tuag at gymwysterau newydd, er mwyn eu hatal rhag cronni eto. Ar gyfer y genhedlaeth nesaf o gymwysterau cyffredinol yng Nghymru, mae'r Bwrdd yn ffafrio ymagwedd tuag at ddatblygu a ysgogir yn ganolog. Dylai cymwysterau newydd

adlewyrchu blaenoriaethau ac arddulliau dysgu, addysgu ac asesu y cwricwlwm yng Nghymru. Byddai Llywodraeth Cymru'n comisiynu gwaith i ddatblygu meini prawf cenedlaethol ar gyfer cymwysterau y byddai'n rhaid i sefydliadau dyfarnu sy'n dylunio cymwysterau newydd ar gyfer Cymru eu bodloni.

Ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, cyn gynted ag y byddai rhestr lai wedi cael ei llunio, dylid sefydlu trefniadau cryfach ar gyfer porthgadw a chynnal adolygiadau dilynol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cymwysterau newydd a gaiff eu cymeradwyo ar gyfer arian cyhoeddus yn berthnasol ac yn werthfawr, a'u bod yn parhau i fod felly.

O fis Ebrill 2012 bydd Cynghorau Sgiliau Sector yn cael eu comisiynu gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau, i gyflenwi nifer o Wasanaethau Cyffredinol ar raddfa'r DU. Bydd y gwasanaethau'n cynnwys cronfa ddata i roi datganiad o'r blaenoriaethau fesul sector a fesul gwlad o ran cymwysterau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector i flaenoriaethu cymwysterau galwedigaethol i'w defnyddio, ac o bosib i'w cyllido yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu mecanwaith i gyflogwyr gymryd rhan wrth benderfynu pa gymwysterau a gynigir yn eu sector. Byddai'r Bwrdd yn croesawu sylwadau ynghylch ai dyma yw'r ffordd orau o gynnwys cyflogwyr yn y broses o ddatblygu cymwysterau, ac ai dyma'r unig gyfrwng y dylid ei ddefnyddio i wneud hynny.

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau y dylai cyflogwyr chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14–16 oed ac 16–19 oed?

A ddylid defnyddio Cynghorau Sgiliau Sector fel y prif fecanwaith ar gyfer hyn?

Bu trafodaeth yn Lloegr yn ddiweddar ynglŷn â'r rhan y gallai prifysgolion ei chwarae wrth ddylunio Safon Uwch, er mwyn peri bod y cymwysterau'n fwy perthnasol i anghenion dysgwyr sy'n symud ymlaen i addysg uwch. Mae'r Bwrdd yn awyddus i gael eich barn ynglŷn â'r ymagwedd hon.

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau y dylai prifysgolion chwarae mwy o ran yn natblygiad cymwysterau Safon Uwch?

## B4. Llythrennedd a rhifedd

### B4.1 Asesu llythrennedd a rhifedd ar gyfer 14–16

Cred y Bwrdd ei bod yn hanfodol i ddysgwyr 14–19 oed yng Nghymru gael mynediad at gymwysterau sy'n rhoi sicrwydd clir i sefydliadau addysg bellach ac uwch, ac i gyflogwyr, bod dysgwyr yn llythrennog ac yn rhifog. Wedi adolygu'r gyfres gyfredol o gymwysterau, ac ar ôl gwrando ar farn rhanddeiliaid, nid yw'r Bwrdd yn argyhoeddedig bod cymwysterau o'r fath ar gael ar hyn o bryd.

Er bod cyflogwyr wedi dweud wrthym eu bod yn defnyddio graddau C i A ar gyfer TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg Iaith fel dangosyddion cychwynnol ar gyfer llythrennedd a TGAU Mathemateg fel dangosydd cychwynnol ar gyfer rhifedd, maent hefyd yn dweud wrthym nad yw ymgeiswyr a chanddynt y cymwysterau hyn o reidrwydd yn llythrennog neu'n rhifog. Mae sefydliadau addysg bellach ac uwch wedi mynegi safbwyntiau tebyg. Mae'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi cymwysterau wedi pwysleisio nad yw cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf na Saesneg Iaith wedi'u dylunio i roi tystiolaeth derfynol o lythrennedd, ac nad yw TGAU Mathemateg wedi'i ddylunio i asesu rhifedd yn unig. Er bod llawer o ddysgwyr hefyd yn dilyn cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif, ni ystyrir y cymwysterau hyn ychwaith yn ddangosyddion uniongyrchol ar gyfer llythrennedd a rhifedd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn na fydd modd gwella lefelau llythrennedd a rhifedd y rhai sy'n gadael yr ysgol drwy wella cymwysterau yn unig, ac ar hyn o bryd wrthi'n datblygu Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd. Mae'r fframwaith yn cyflwyno'r sgiliau y dylai pobl ifanc fod yn gallu eu harddangos o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3 (4–14 oed). Bydd cyflwyno'r fframwaith, ynghyd â chymorth i athrawon wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd, dros amser, yn codi sgiliau pobl ifanc erbyn iddynt ddechrau eu rhaglenni cymhwyster. Mae angen i'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14–16 oed yng Nghymru roi cymhelliant i bobl ifanc adeiladu, yng Nghyfnod Allweddol 4, ar y sgiliau llythrennedd a rhifedd y byddant wedi'u datblygu, yn y dyfodol, erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 3.

Mae'r Bwrdd felly o blaid argymell ein bod yn newid y cymwysterau a ddefnyddir gennym ar hyn o bryd i asesu llythrennedd a rhifedd. Ceir nifer o opsiynau er mwyn cyflawni hyn, nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd. Maent yn cynnwys:

a) comisiynu manylebau newydd ar gyfer cymwysterau TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, TGAU Saesneg Iaith a TGAU Mathemateg ar gyfer Cymru sy'n adeiladu'n uniongyrchol ar yr elfen llythrennedd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

ac yn annog datblygiad y sgiliau hynny drwy gydol Cyfnod Allweddol 4 a thu hwnt os oes angen

b) datblygu neu gomisiynu profion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 a asesir yn allanol, ac ymgorffori'r rhain yng nghraidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel Ganolradd yn lle cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru

c) cynyddu lefel y gofyn yn yr asesiad sgiliau llythrennedd a rhifedd oddi mewn i Sgiliau Hanfodol Cymru, efallai mewn profion a asesir yn allanol

d) comisiynu cymwysterau TGAU newydd mewn Llythrennedd a Rhifedd i'w cynnal ochr yn ochr â TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf, Saesneg Iaith a Mathemateg, neu i ragflaenu'r cymwysterau hynny.

e) integreiddio disgwyliadau pwnc-benodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd i'r meini prawf pwnc ar gyfer pob un o'r genhedlaeth nesaf o gymwysterau TGAU

f) cyflwyno profion llythrennedd a rhifedd wedi'u hasesu gan yr athro yn 16 oed.

**Cwestiwn ymgynghori**

**Sut y dylid asesu llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn 14–16 oed? Pa un o'r opsiynau a restrir sydd orau gennych?**

### B4.2 Llythrennedd a rhifedd ar gyfer 16–19

Er mwyn gwella llythrennedd a rhifedd, mae'r Bwrdd o'r farn y dylid cael gofyniad bod yn rhaid i ddysgwyr nad ydynt eisoes wedi cyflawni Lefel 2 mewn cymwysterau llythrennedd a rhifedd priodol erbyn iddynt droi'n 16, barhau i weithio tuag at ennill y rhain. Dylid darparu dysgu ac addysgu priodol er mwyn cynorthwyo dysgwyr i wella'r sgiliau hyn ac i ennill cymwysterau Lefel 2. Dylai'r gofyniad hwn fod yn rhan o raglen ddysgu gydlynol yn 16–19 oed.

Gallai'r dull o sicrhau bod hyn yn digwydd gynnwys:

- gofyniad i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau Lefel 2 mewn llythrennedd a rhifedd er mwyn bod yn gymwys ar gyfer lefel Uwch Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
- newid y mesurau perfformiad ôl-16 mewn ysgolion
- cynnwys gofynion llythrennedd a rhifedd penodol o fewn y fframwaith cynllunio a chyllido newydd ar gyfer darpariaeth ôl-16
- darparu gwybodaeth gliriach ac uwch ei phroffil am bwysigrwydd cymwysterau Lefel 2 mewn llythrennedd a rhifedd i ddysgwyr ac eraill.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylai dysgwyr amser llawn ôl-16 nad ydynt wedi ennill Lefel 2 mewn llythrennedd neu rifedd gael cefnogaeth i gyrraedd y safon hon?

## B5. Materion sy'n ymwneud â mathau penodol o gymhwyster

### B5.1 Graddio Bagloriaeth Cymru

Yn gynnar yn 2012, cynigiodd y Bwrdd i Weinidogion Cymru y dylid graddio Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gyfredol ar gyfer derbyniadau addysg uwch, ac er mwyn sicrhau bod cyflawniadau amrywiol y dysgwyr yn cael eu cydnabod yn briodol. Derbyniodd y Gweinidogion yr argymhelliad hwn ac y dylid ymgynghori ymhellach ynghylch sut y dylid cyflawni hyn. Nododd y Gweinidogion hefyd y dylai safbwyntiau pellach ynghylch a ddylid graddio'r lefelau Canolradd a Sylfaen gael eu cynnwys, maes o law, yn rhan o'r ymarfer ymgynghori ehangach hwn ar gyfer yr Adolygiad o Gymwysterau.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid graddio Bagloriaeth Cymru ar lefel Sylfaen ac/neu ar lefel Ganolradd maes o law?

### B5.2 Materion asesu ar gyfer TGAU

Ar hyn o bryd, gall sefydliadau dyfarnu sy'n cynnig TGAU yng Nghymru gynnig y cymwysterau ar sail unedau, os ydynt yn dewis gwneud hynny. Hynny yw, caiff dysgwyr ddilyn unedau TGAU ar wahanol adegau drwy gydol eu cwrs dwy flynedd. Os nad ydynt yn ennill y radd maent yn gobeithio amdani, caiff dysgwyr ailsefyll unrhyw uned **unwaith** er mwyn ceisio gwella eu marc am yr uned honno.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid parhau i ddarparu cymwysterau TGAU i ddysgwyr ar sail unedau?

Beth yw eich barn ynghylch maint yr 'asesiad terfynol' sy'n briodol (pennir hyn yn 40 y cant ar hyn o bryd)?

Beth yw eich barn ynghylch cael asesiad dau gam o natur mwy ffurfiol ar gyfer cymwysterau TGAU, yn debyg i'r model presennol ar gyfer UG ac Uwch?

Cyflwynwyd asesiadau dan reolaeth i'r rhan fwyaf o gymwysterau TGAU er mwyn gwella dibynadwyedd a thrylwyredd yr asesu, yn sgil anniddigrwydd eang ynglŷn â'i ragflaenydd, 'gwaith cwrs'. Roedd gwaith cwrs yn agored i gamymddwyn gan ymgeiswyr, lle na fyddai asesiadau yn destun mesurau rheoli priodol.

Mewn gwerthusiad diweddar o gyflwyno asesiadau dan reolaeth i gymwysterau TGAU, nodwyd y bu'r broses yn her i rai canolfannau ei rheoli, bod rhai pryderon ynglŷn â'r amrywio yng nghanllawiau'r sefydliadau dyfarnu, ac mewn rhai achosion, ei bod hi'n ymddangos bod dysgwyr yn cael eu gor-asesu, a bod hynny'n cael effaith negyddol ar y dysgu a'r addysgu. Ar y llaw arall, dangosai'r gwerthusiad fod mwyafrif yr athrawon yn cefnogi egwyddorion asesu dan reolaeth a'u bod yn teimlo ei fod yn welliant o'i gymharu â gwaith cwrs, o ran dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesu. Mae sefydliadau dyfarnu'n ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad drwy lunio canllawiau cliriach a deunyddiau cymorth ar gyfer canolfannau, a rhoddir sylw neilltuol i asesu dan reolaeth mewn ieithoedd tramor modern.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw eich barn ynghylch asesu dan reolaeth? Sut y gellid ei wella?

A ddylid cadw asesu dan reolaeth yn nodwedd yn y genhedlaeth nesaf o gymwysterau TGAU yng Nghymru? Os felly, a ddylid ei gadw ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau TGAU, neu ond ychydig ohonynt?

### B5.3 Haenu TGAU a chyflawniad ar Lefel 1

Mae llawer o gymwysterau TGAU yn cael eu cynnig mewn dwy haen ar hyn o bryd: haen Sylfaen a haen Uwch. Caiff cymwysterau TGAU haen Sylfaen eu graddio'n C–G ac fe'u bwriedir ar gyfer dysgwyr sy'n arddangos nodweddion Lefel 1. Caiff cymwysterau TGAU haen Uwch eu graddio'n A*–D, ac maent ar gyfer dysgwyr y mae disgwyl iddynt lwyddo ar Lefel 2. Mae gorgyffwrdd y graddau (C–D) yn caniatáu ar gyfer dysgwyr sydd yn rhagori ar ddisgwyliadau Lefel 1 ond nad ydynt yn cyflawni'r disgwyliadau ar Lefel 2 yn llwyr.

Yn yr Adolygiad, dywedodd llawer o randdeiliaid mai ond graddau C i A* sy'n berthnasol mewn gwirionedd o ran dilyniant i addysg uwch neu gyflogaeth. Er y gallai gradd D neu E gynrychioli cyflawniad gwirioneddol i rai dysgwyr ar Lefel 1, mae'r Adolygiad wedi canfod mai ychydig o werth os o gwbl a roddir ar y graddau hynny yn y byd allanol. Gall fod yn anodd i sefydliadau dyfarnu sicrhau bod y

graddau sy'n gorgyffwrdd, sef C a D, yn adlewyrchu'r un cyflawniad yn yr haen sylfaen a'r haen uwch.

Mae rhai rhanddeiliaid wedi awgrymu nad yw TGAU haen sylfaen yn berthnasol iawn, ac nad oes iddo lawer o werth. Maent wedi awgrymu y gallai fod yn well cael math ar wahân o gymhwyster ar Lefel 1, sy'n cynrychioli cyflawniad clir ynddo'i hun ond sy'n cael ei ystyried fel cam tuag at gyfle dilynol i ymgeisio am TGAU Lefel 2. Cafwyd awgrymiadau am amryw o ffyrdd posibl o ddisgrifio cymhwyster o'r fath, gan gynnwys cymwysterau cyn-TGAU, Tystysgrifau Sylfaen Addysg Uwchradd (FCSEs) neu'n syml, Tystysgrifau Lefel 1.

Mae i'r model hwn fanteision ac anfanteision. Gallai gynnig ymagwedd mwy cadarnhaol a chynhwysol tuag at ddysgu a chyflawniad ar Lefel 1, yn hytrach nag arwain at radd is mewn TGAU a ystyrir gan lawer yn 'fethu'. Gallai hefyd fod yn gyfrwng i rai dysgwyr, ar gyfer rhai pynciau, gael mwy o gyfle i gyrraedd Lefel 2 – efallai, er enghraifft, gyda rhaglen astudio gynlluniedig o Flynyddoedd 9 neu 10 hyd at Lefel 2 ym Mlwyddyn 12. Gallai hyn fod yn fodd i fynd i'r afael â'r ffaith bod dysgwyr yn aeddfedu ar gyflymder amrywiol drwy gydol eu harddegau.

Ar y llaw arall, gellid ystyried y byddai'r newid yn ychwanegu at amlhau a chymhlethu cymwysterau. Gellid hefyd ei ystyried yn gyfystyr â dychwelyd i ddyddiau'r lefel O a'r TAU. Y gwahaniaeth allweddol gyda'r model newydd hwn yw y byddai Lefel 1 yn cael ei ystyried yn gam tuag at Lefel 2 (a TGAU) i'r rhan fwyaf o ddysgwyr, yn hytrach nag yn gymhwyster terfynol yn ei hawl ei hun.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw eich barn ynglŷn â'r dull presennol o rannu cymwysterau TGAU yn haenau? Beth yw eich barn ynghylch canolbwyntio ar gymwysterau TGAU yng nghyrhaeddiad Lefel 2 a chreu cymhwyster newydd Lefel 1 i wobrwyo cyflawniad ar y lefel honno, fel cam tuag at ddilyniant wedi hynny?

### B5.4 Nifer y cymwysterau TGAU a ddilynir gan ddysgwyr yng Nghymru

Mae llawer o ddysgwyr yng Nghymru yn dilyn nifer fawr o gymwysterau TGAU (hyd at 13 neu 14 mewn rhai achosion). Gall hyn fod yn arbennig o wir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle bydd dysgwyr yn aml yn dilyn TGAU iaith a llenyddiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod y Bwrdd yn cydnabod yr angen i gynnwys ehangder a dewis o fewn y cwricwlwm, byddai'n croesawu sylwadau ynghylch a oes gormod o bwysau i ddilyn nifer fawr o bynciau TGAU, a hynny, o bosib, ar draul y safonau a gyrhaeddir, ac ar draul dysgu cyflawn ac amleiriog, sgiliau cyflogadwyedd ac amser ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid pennu uchafswm arferol o gymwysterau TGAU i'w dilyn yn yr ysgol? Os felly, beth ddylid ei bennu fel uchafswm?

### B5.5 Asesu Safon Uwch

Mae rhanddeiliaid wedi codi rhai materion pwysig mewn perthynas ag asesu Safon Uwch. Teimlai llawer fod gormod o asesu'n digwydd drwy gydol cyrsiau Safon Uwch, a bod hynny'n amharu'n ormodol ar yr amser addysgu a'r profiad dysgu.

Mae'r Bwrdd yn ystyried a ddylid newid y dull o asesu Safon Uwch maes o law yng Nghymru, er enghraifft, dileu neu leihau'r hawl i ail-sefyll unedau, neu symud tuag at fodel cwbl linol (lle caiff pob uned ei sefyll ar ddiwedd y cwrs). Mae'r papur ymgynghori yn ceisio barn ynglŷn â'r newidiadau posibl hyn. Mae'r Bwrdd hefyd yn awyddus i gael sylwadau ynghylch perthnasedd a gwerth cymwysterau Safon UG, naill ai fel cymwysterau yn eu hawl eu hunain, neu fel cam tuag at Safon Uwch.

Yn yr un modd â TGAU, Llywodraeth Cymru sydd yn berchen ar y teitl TAG Safon Uwch, a gall, mewn egwyddor, geisio datblygu ei gofynion ei hun ar gyfer cymwysterau Safon Uwch.

**Cwestiwn ymgynghori**

Gan dybio y bydd y Safon Uwch yn parhau yng Nghymru, a ddylid cadw'r Safon UG fel cam tuag at Safon Uwch?

A ddylai dysgwyr Safon Uwch allu sefyll modiwlau cyn diwedd y cwrs (UG ac/neu Uwch)?

A ddylai dysgwyr allu ailymgeisio modiwlau Safon Uwch i wella'u gradd, heb orfod ailsefyll y cymhwyster cyfan? Os felly, a ddylid:

i. cyfrif y marc gorau?

ii. cyfrif y marc mwyaf diweddar?

iii. cyfyngu ar nifer y cyfleoedd i ailsefyll modiwlau i un fesul modiwl?

Mae'r Safon Uwch a gynigir yng Nghymru ar hyn o bryd yn union yr un peth â'r cymhwyster yn Lloegr. Yn y tymor hwy, byddai'n bosibl i Gymru ddatblygu ei chymwysterau pwrpasol ei hun ar gyfer dysgwyr

16–19 oed. Fodd bynnag, mae'n debygol y ceir newidiadau i'r gyfres gyfredol o gymwysterau, a ysgogir gan bolisi yn Lloegr, cyn i ddatblygiadau o'r fath allu digwydd.

### B5.6 Dosbarthu cymwysterau galwedigaethol: IVETs a CVETs

Mae cyfarwyddyd Ewropeaidd gan Cedefop, y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Hyfforddiant Galwedigaethol, yn diffinio dau gategori ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, sef IVET a CVET.

- IVET (Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Cychwynnol) yw addysg neu hyfforddiant cyffredinol neu alwedigaethol a gynhelir yn y system addysg gychwynnol, fel arfer cyn mynd i fyd gwaith.
- CVET (Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol Parhaus) yw addysg a hyfforddiant ar ôl addysg a hyfforddiant cychwynnol, neu ar ôl mynd i fyd gwaith, er enghraifft i wella neu ddiweddaru gwybodaeth neu sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd er mwyn newid gyrfa.

Nid yw system cymwysterau galwedigaethol y DU yn cydymffurfio â dosbarthiadau IVET/CVET. Mae'r Adolygiad o Gymwysterau'n rhoi cyfle i Gymru ei chysoni ei hun â'r dosbarthiadau Ewropeaidd. Mae'r Bwrdd o blaid mabwysiadu'r diffiniadau hyn yng Nghymru er mwyn egluro diben cymwysterau galwedigaethol a nodi pa rai sy'n addas ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a lleoliadau. Drwy'r categorïau hyn, dim ond IVETs fyddai ar gael ar gyfer y grŵp 14–16 oed. Ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed byddai'r pwyslais yn dal i fod ar IVETS, ond gyda rhywfaint o ddefnydd penodol o CVETS, gan gynnwys mewn lleoliadau seiliedig ar waith. Byddai hyn yn fodd i eglurhau diben a swyddogaeth nifer fawr o gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w cyflenwi ac ar gyfer arian cyhoeddus ar bob lefel oed ar hyn o bryd. Gellid defnyddio'r gwahaniaethu wrth symleiddio drwy leihau'r niferoedd fel a nodir yn adran B3 (tudalen 24).

Mae a wnelo CVET â hyfforddiant a datblygu ar sail cymhwysedd. Yn y DU ceir proses wedi'i hen sefydlu ar gyfer datblygu cymwysterau ar sail cymhwysedd, a arweinir gan y cyflogwr ac a ategir gan y Cyngor Sgiliau Sector priodol. Datganiadau ar gyfer y DU gyfan yw'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) sy'n darparu meincnodau ar gyfer cymhwysedd galwedigaethol. Fe'u datblygir drwy ymgynghori'n helaeth â chyflogwyr. Mae holl gymwysterau galwedigaethol y Fframwaith Cymwysterau a Chredyd (FfCCh) a'r holl fframweithiau prentisiaeth yn seiliedig ar yr SGC, gan sicrhau dealltwriaeth gyffredin ynghylch gwybodaeth a sgiliau ledled y DU ac Ewrop.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylai Cymru fabwysiadu'r diffiniadau IVET a CVET ar gyfer cymwysterau galwedigaethol?

### B5.7 Cymwysterau galwedigaethol 14–16

Ar gyfer 14–16 oed, pan ddylid rhoi pwyslais ar addysg gyffredinol, mae'r Bwrdd yn ystyried argymell y canlynol:

- na ddylai cyfanswm y cymwysterau galwedigaethol gynrychioli mwy na 40 y cant o'r amser dysgu fel arfer
- na ddylid cynnig cymwysterau galwedigaethol mawr, am eu bod yn annog y dysgwr i arbenigo yn rhy ifanc
- na ddylid cymeradwyo cymwysterau sy'n tystio i gymhwysedd galwedigaethol
- dim ond cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cynnwys yng nghategori IVETs y dylid eu defnyddio
- y dylai cymwysterau galwedigaethol gynnwys meysydd pwnc eang, a dylent annog datblygiad sgiliau trosglwyddadwy a dealltwriaeth gyd-destunol dda, ochr yn ochr â gwybodaeth a sgiliau ymarferol penodol.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno â'r argymhellion a gynigir ar gyfer cyfyngu cymwysterau galwedigaethol 14–16 i 40 y cant o'r amser dysgu?

Ydych chi'n cytuno y dylai cymwysterau galwedigaethol 14–16 fod yn eang eu natur, ac na ddylent dystio i gymhwysedd galwedigaethol?

Ydych chi'n cytuno mai IVETs yn unig sy'n briodol yn 14–16 oed?

Dylai dysgwyr sy'n gwneud eu dewisiadau yn 14 oed fod yn fwy gwybodus am yr hyn y mae cymwysterau galwedigaethol yn ei olygu o ran cyflogadwyedd o fewn sector. Dylai pobl ifanc a chyflogwyr ddeall na fydd y cymwysterau'n cymhwyso neu'n paratoi'r dysgwyr yn llawn ar gyfer swyddi penodol yn 16 oed, ac y bydd angen hyfforddiant pellach. Dylai dysgwyr a rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol hefyd mai'r llwybr dilyniant tebygol ar ôl cymwysterau Lefel 2 IVET fydd cymwysterau Lefel 2 CVET yn hytrach na symud yn syth i gymwysterau Lefel 3.

Yn ôl peth o'r adborth gan randdeiliaid, mae'n bosib fod mwy o hyder yn y brand TGAU nag mewn cymwysterau eraill ar gyfer pobl ifanc 14 i 16 oed. Mae'r Bwrdd yn ystyried a ellid dadlau dros

gynnwys meysydd sector a phynciau galwedigaethol oddi mewn i gyfres estynedig o gymwysterau TGAU. Gallai hyn gryfhau'r canfyddiad o berthnasedd a gwerth cymwysterau galwedigaethol.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw eich barn ynghylch ehangu'r defnydd o'r brand TGAU ar draws pynciau galwedigaethol a chyffredinol?

Cafwyd cryn sôn ar y newyddion yn ddiweddar am gymwysterau galwedigaethol ar gyfer y grŵp oedran 14–16, oherwydd y sefyllfa yn Lloegr a'r newidiadau a gynigiwyd yn dilyn Adroddiad Wolf, yn enwedig y cynnig i newid y dull o gyfrif cymwysterau galwedigaethol yn nhablau cynghrair ysgolion Lloegr. Dylid nodi mai ffenomenon Seisnig i raddau helaeth fu'r cynnydd aruthrol yn y niferoedd a ddilynodd gymwysterau galwedigaethol dros y blynyddoedd diwethaf, a bod nifer y pynciau nad ydynt yn rhai TGAU sy'n cyfrannu at drothwy Lefel 2 yn Lloegr (gan gynnwys BTEC a chyfwerthoedd eraill) ddwywaith y ffigwr yng Nghymru.

Nid yw'r Bwrdd o'r farn fod problem ar yr un raddfa i'w chael yng Nghymru, na bod angen gwrthfesurau sy'n cael effaith mor sylweddol yn y wlad hon. Mae'r cynigion ar gyfer newid y dull o gyfrif cymwysterau galwedigaethol mewn mesurau perfformiad ysgolion yng Nghymru'n adlewyrchu'r gwahaniaeth hwn (gweler adran B6, tudalen 39).

Mae llawer o gymwysterau galwedigaethol, yr ystyrir bod rhai ohonynt yn gyfwerth ag un neu fwy o gymwysterau TGAU, yn wahanol i gymwysterau TGAU am nad ydynt yn cynnwys unrhyw brofion neu arholiadau allanol. Ymddengys fod cytundeb cyffredinol ymysg rhanddeiliaid y gall elfen gref o allanoldeb mewn cymwysterau ychwanegu rhywfaint o drylwyredd a gwella'r canfyddiad ehangach o'u perthnasedd a'u gwerth, yn enwedig o ran dilyniant. Fodd bynnag, mae llawer o randdeiliaid yn cytuno â'r farn sy'n dod i'r amlwg o'r Adolygiad nad oes rhaid i'r diffiniad o allanoldeb fod mor gaeth ag arholiad a gaiff ei farcio yn allanol. Gellid gwella trylwyredd rhai asesiadau a gaiff eu marcio'n fewnol, er enghraifft, drwy drefniadau mwy trwyadl i ddilysu neu gymedroli penderfyniadau asesu yn allanol.

**Cwestiwn ymgynghori**

Beth yw eich barn ynghylch cryfhau allanoldeb wrth asesu'r holl gymwysterau galwedigaethol a gymeradwywyd i'w defnyddio ar gyfer dysgwyr 14–16 oed?

Oes gennych chi farn ynglŷn â'r ffurfiau y dylid eu defnyddio ar gyfer yr elfen gryfach hon o allanoldeb?

### B5.8 Cymwysterau galwedigaethol 16–19

Erbyn y cyfnod ôl-16, addysg alwedigaethol yw'r llwybr a ddewisir gan lawer o ddysgwyr. Bydd y cymwysterau galwedigaethol a ddilynwyd yn y cyfnod hwn yn canolbwyntio mwy ar gyflogaeth nag yn 14–16, ond dylent barhau i fod yn ddigon cyffredinol fel eu bod yn berthnasol i ystod eang o leoliadau cyflogaeth, ac i gefnogi newidiadau gyrfa yn y dyfodol. Gallai naill ai IVETs neu CVETs fod yn briodol, yn dibynnu ar y dysgwr a'i ddyheadau. Byddai'r Bwrdd yn hoffi gweld system sy'n annog ein holl bobl ifanc i ddilyn rhaglenni astudio cydlynol a fydd yn mwyafu eu cyfleoedd gyrfa yn y tymor hir.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno y gallai IVETs a CVETs, y naill a'r llall, fod yn briodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed? Ym mha amgylchiadau neu sectorau y gallai CVETs fod yn briodol?

### B5.9 Asesu Sgiliau Hanfodol Cymru

Cynigir cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar Lefelau 1 i 4. Asesir ar sail portffolio o dystiolaeth gan yr ymgeisydd, a asesir ac a ddilysir gan y ganolfan, ac a ddilysir yn allanol gan y sefydliad dyfarnu. Cyflwynir Tystysgrif Lefel Mynediad ar sail tasg dan reolaeth.

Mewn adborth gan randdeiliaid ynghylch Sgiliau Hanfodol Cymru, codwyd y pryderon canlynol:

- gall asesu Portffolio gymryd llawer o amser, ar draul y dysgu a'r addysgu
- ceir canfyddiad bod y cyfuniad o asesu mewnol ac o sicrhau ansawdd allanol yn arwain at anghysondeb wrth ddehongli'r safonau a'r gofynion o ran tystiolaeth, rhwng sefydliadau dyfarnu a rhwng Sicrhawyr Ansawdd Allanol o fewn sefydliadau dyfarnu
- teimlir bod y dull portffolio o asesu yn agored i'w gwestiynu o ran dilysrwydd, ac o ran faint o'r portffolio sy'n waith a gyflawnwyd gan ymgeisydd heb unrhyw gymorth.

Mae'r Adolygiad yn ymwybodol o'r ffaith bod elfen profi allanol wedi'i chynnwys yn y cymwysterau Sgiliau Allweddol hyd 2004, ond i'r elfen honno gael ei thynnu'n ôl am ei bod yn cael ei hystyried yn amhriodol ac ormod o faich i'r dysgwr. Credwyd ar y pryd y gellid asesu'r defnydd o sgiliau'n well dros ystod o gyd-destunau drwy asesiad portffolio. Fodd bynnag, gellid dadlau bellach dros fynd i'r

afael â chanfyddiadau ynghylch diffyg trylwyredd ac effeithlonrwydd, drwy gyflwyno elfen a asesir yn allanol, gan gadw dilysrwydd yr asesu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ynghylch cyflwyno elfen o allanoldeb wrth asesu Sgiliau Hanfodol Cymru. Rydym hefyd yn awyddus i gael sylwadau ynghylch graddio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru (beth bynnag fo'r model asesu a ddefnyddir). Byddai'r graddio'n adlewyrchu hyfedredd amrywiol mewn sgiliau technegol neu wahanol lefelau o ansawdd yn yr ymateb i dasgau asesu. Byddai'n cynrychioli newid sylweddol oddi wrth y model cymhwysedd a ddefnyddir ar hyn o bryd.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n credu y dylid cael mwy o elfen allanol wrth asesu Sgiliau Hanfodol Cymru?

Ydych chi'n credu y dylid graddio Sgiliau Hanfodol Cymru?

### B5.10 Sgiliau Allweddol Ehangach

Caiff Sgiliau Allweddol Ehangach eu hasesu drwy bortffolio o dystiolaeth. Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu bod y dull presennol o greu portffolios yn dibynnu'n ormodol ar dystiolaeth ysgrifenedig, yn cymryd llawer o amser ac yn ailadroddus. Byddai'r Bwrdd yn croesawu sylwadau ynghylch a ddylid cyflwyno elfen a asesir yn allanol i gynyddu trylwyredd y cymwysterau. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi codi cwestiynau ynglŷn â'r angen am ymdeimlad cliriach o ddilyniant drwy'r lefelau. Mae rhai wedi awgrymu y byddai'r sgiliau'n elwa ar deitl cliriach, fel 'Sgiliau Cyflogadwyedd', 'Sgiliau Dysgu a Chyflogadwyedd Ehangach' neu 'Sgiliau ar gyfer Gwaith'.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n meddwl bod angen teitl cliriach ar gyfer y Sgiliau Allweddol Ehangach? Ydw/Nac ydw

Os felly, beth ddylid galw'r rhain?

Oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch cynnwys y Sgiliau Allweddol Ehangach, y dull o'u hasesu neu'r dilyniant y maent yn eu cynnig?

### B5.11 Cymwysterau lefel mynediad

Hyd yma, prin iawn fu'r adborth ynghylch cymwysterau lefel mynediad. Mae gwaith felly wedi cael ei gomisiynu i benderfynu a yw'r cymwysterau cyfredol yn bodloni anghenion dysgwyr lefel mynediad.

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol y rhoddir gwerth ar lawer o gymwysterau lefel mynediad, ac y gall ymyraethau amserol ar lefel mynediad roi anogaeth hanfodol bwysig a gweithredu fel cerrig camu i rai dysgwyr nad ydynt yn gwneud rhyw lawer o gynnydd, neu sy'n cael anawsterau â sgiliau sylfaenol.

**Cwestiwn ymgynghori**

A yw cymwysterau lefel mynediad yn bodloni anghenion myfyrwyr llai galluog neu fyfyrwyr sydd wedi colli diddordeb ar hyn o bryd? A oes angen unrhyw newidiadau?

Ydych chi'n credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn amharu ar ddarparu cymwysterau priodol i fyfyrwyr sy'n llai galluog neu sydd wedi colli diddordeb?

### B5.12 Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd

Cydnabyddir Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd o fewn y Fframwaith Credydau a Chymwysterau ar gyfer Cymru. Fe'i cynigir gan golegau addysg bellach a chan ddarparwyr eraill, weithiau i ddysgwyr 14 i 19 oed. Mae nifer o sefydliadau dyfarnu wedi'u cydnabod i ddyfarnu DGOSA, ac mae cyfran helaeth o'r ddarpariaeth gyfredol yn cael ei chyflenwi gan un sefydliad dyfarnu.

Mae'r holl gyrff sydd wedi'u cydnabod ar gyfer FfCChC sy'n cynnig darpariaeth DGOSA yng Nghymru yn defnyddio canllawiau a phrosesau trwyadl ar gyfer cydnabod. Fodd bynnag caiff DGOSA ei weithredu y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio cymwysterau a weithredir ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae'n cynnig ymagwedd unigryw i Gymru sy'n caniatáu hyblygrwydd ac ymatebolrwydd wrth ddatblygu unedau.

Mae'r Bwrdd o'r farn y gallai ymgorffori unedau DGOSA mewn rhaglenni dysgu ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed (gan gyfrannu hyd at 10 y cant i'r rhaglen) fod yn ddefnyddiol. Drwy wneud hyn, byddai gan unedau o unrhyw gorff a gydnabyddir gan FfCChC, y potensial i gael eu cynnwys mewn rhaglenni dysgu a ariennir.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n gweld bod rôl ar gyfer cyflenwi ac ariannu'r holl unedau DGOSA oddi mewn i raglenni dysgu ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed? Os felly, beth fyddai'r unedau hyn yn ei ychwanegu?

### B5.13 Materion cyfrwng Cymraeg

Cyhoeddwyd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2012 gan wneud addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn rhan annatod o'n seilwaith addysg. Polisi Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyfle cyfartal i'r dysgwyr hynny sy'n dewis derbyn addysg a dilyn cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer ac ystod y cymwysterau cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu'n raddol mewn ymateb i'r galw gan ddysgwyr a chan ganolfannau. Mae cyfanswm o oddeutu 80 o gymwysterau cyffredinol a 369 o gymwysterau galwedigaethol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, drwy 18 corff dyfarnu.

Mewn perthynas â'r Adolygiad o Gymwysterau, dyma'r materion allweddol ym marn y Bwrdd:

- sicrhau bod cymwysterau a ystyrir yn fwyaf perthnasol a gwerthfawr ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dylai'r cynigion yn y papur hwn i gael cyfanswm llai o gymwysterau a gwybodaeth gliriach am berthnasedd a gwerth y cymwysterau hynny wneud hyn yn rhwyddach
- yr angen i Lywodraeth Cymru barhau i roi cymorth i sefydliadau dyfarnu ddatblygu cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- yr effaith bosibl ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sgil unrhyw newidiadau i ddulliau asesu neu o gyflwyno cymwysterau newydd yn gyflym.

**Cwestiwn ymgynghori**

A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r hyn a gynigir o ran cymwysterau cyfrwng Cymraeg 14–19?

## B6. Mesur perfformiad ysgolion

### B6.1 Mesurau perfformiad ysgolion

Wrth gyfeirio yn y ddogfen hon at 'fesur perfformiad', cyfeirir at fesur perfformiad ysgolion yn hytrach nag at fesur cyflawniadau dysgwyr unigol. Gall y dangosyddion a ddefnyddir i fesur perfformiad ddylanwadu ar ddarpariaeth cymwysterau. Mae'r Bwrdd am i fesurau perfformiad weithredu fel sbardun cadarnhaol fel bod darparwyr addysg:

- yn canolbwyntio ar fudd pennaf y dysgwyr
- yn cynnig cymwysterau perthnasol a gwerthfawr sy'n darparu dilyniant clir.

Dyma'r prif ddangosyddion perfformiad a ddefnyddir ac yr adroddir yn eu cylch yng Nghymru:

- Ar gyfer dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, y canran sy'n cyrraedd:
  - **trothwy Lefel 1** (sydd gyfwerth â phump TGAU Gradd A * i G)
  - **trothwy Lefel 2** (sydd gyfwerth â phump TGAU gradd A * i C)
  - **trothwy Lefel 2** gan gynnwys TGAU gradd A* i C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg a Mathemateg (a elwir yn **Lefel 2 Cynhwysol**)
  - TGAU gradd A * i C mewn Cymraeg Iaith Gyntaf neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth (a elwir yn **Ddangosydd Pynciau Craidd**).
- Yn ogystal, ar gyfer yr un grŵp:
  - y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach fesul dysgwr
  - y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio fesul dysgwr (yr wyth canlyniad gorau).
- Ar gyfer dysgwyr ôl-16:
  - y ganran sy'n cyrraedd trothwy Lefel 3 (sydd gyfwerth â dau Safon Uwch)
  - y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach fesul dysgwr.

Ar hyn o bryd mae'r Adolygiad yn canolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 4, gan mai dyna'r cyfnod y mae'r prif faterion yn berthnasol iddo. Fodd bynnag, mae i rai o'r cwestiynau oblygiadau ar gyfer addysg ôl-16 hefyd.

Ceir gwahaniaethau pwysig rhwng gwerth cyfraniad cymhwyster at drothwy a'r pwyntiau perfformiad y gall y cymhwyster hwnnw ei ddenu.

Mae cyfraniad y cymhwyster at drothwy'n seiliedig ar ei 'faint' (pa mor hir mae'n ei gymryd i'w addysgu, mewn oriau dysgu dan arweiniad neu ODDA) o'i gymharu ag un TGAU (ar gyfer Lefel 1 a Lefel 2) neu un Safon Uwch (ar gyfer Lefel 3). Nid yw cyfraniad at drothwy'n dibynnu ar y radd a gafwyd. Er enghraifft, mae pob gradd TGAU o A* i C yn cyfrannu'n gyfartal (20 y cant) at **drothwy Lefel 2**.

Wrth gyfrifo'r **pwyntiau perfformiad** a ddyrennir i gymhwyster, ystyrir ei 'faint' a'i 'her'. Mae'r maint yn seiliedig ar ODDA a'r her yn ymwneud â'i lefel (er enghraifft, Lefel 2) a'r radd a gafwyd. Yn yr achos hwn, mae'r radd wirioneddol a gafwyd yn effeithio ar nifer y pwyntiau a ddyrennir.

Mae amryw o'r mesurau uchod yn cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau ar gyfer dangosyddion perfformiad eraill, gan gynnwys bandio ysgolion. Caiff mesurau perfformiad sy'n seiliedig ar ffactorau eraill yn hytrach na chymwysterau, er enghraifft ffigyrau presenoldeb neu brydau ysgol am ddim, eu heithrio o'r ymgynghoriad hwn am eu bod y tu hwnt i gylch gwaith yr Adolygiad dan sylw.

Ym marn y Bwrdd dylem ail-gadarnhau pwysigrwydd sylfaenol y **Lefel 2 Cynhwysol** a'r **Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio** fel prif fesurau perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yng Nghymru.

Mae'r trothwy **Lefel 2 Cynhwysol** yn cydbwyso pwysigrwydd sgiliau craidd llythrennedd a rhifedd a'r angen i gynnig ystod eang ac amrywiol o opsiynau i ddysgwyr. Mae'r **Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio** yn seiliedig ar yr wyth canlyniad gorau ar gyfer pob dysgwr, felly mae'n caniatáu cymhariaeth deg rhwng ysgolion waeth beth fo nifer cyfartalog y cymwysterau a ddilynir gan y dysgwyr, ac nid yw'n cymell ysgolion i annog disgyblion i ddilyn nifer fawr iawn o gymwysterau TGAU.

Mae'r Bwrdd yn awgrymu y dylid cadw'r holl fesurau perfformiad eraill ar hyn o bryd, ac y dylid adolygu eu gwerth hirdymor maes o law.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ailgadarnhau pwysigrwydd y Lefel 2 Cynhwysol a'r Sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio yng Nghyfnod Allweddol 4?

Ydych chi'n meddwl y dylid newid unrhyw beth yn y mesurau ôl-16?

A ddylid disodli unrhyw fesurau, ynteu a oes unrhyw fesurau ychwanegol y dylid eu cynnwys?

### B6.2 Cyfwerthoedd

Ar hyn o bryd mae rhai cymwysterau galwedigaethol yn werth hyd at chwe TGAU o ran perfformiad am eu bod (yn seiliedig ar ODDA) yn cymryd llawer mwy o amser i'w cyflenwi na chymhwyster TGAU.

Ceir tystiolaeth fod y system hon yn cymell ysgolion i gynnig cymwysterau galwedigaethol i ddysgwyr sy'n denu pwysoliad trwm o ran perfformiad. Efallai na fydd hyn bob amser er budd pennaf y dysgwyr. Cafwyd gwrthwynebiad cryf i'r gyfres gyfredol o gyfwerthoedd gan lawer o randdeiliaid yng nghyfnod cynnar yr

Adolygiad. Mae'r Bwrdd yn cytuno nad yw rhai cyfwerthoedd cyfredol yn gredadwy, ac y gallent lurgunio'r dewisiadau a gynigir ac a hyrwyddir mewn ysgolion a cholegau. Gall camsyniadau ynghylch gwir werth rhai cymwysterau y tu hwnt i giât yr ysgol neu'r coleg hefyd achosi i ddysgwyr wneud dewisiadau gwael, a gall hynny niweidio enw da'r cymwysterau eu hunain.

Rydym yn ystyried newid y 'cyfwerthoedd' yng Nghymru fel bod cymwysterau galwedigaethol yn dal i gyfrannu at fesurau perfformiad, ond yn denu gwerth uchafswm o ddau TGAU o ran perfformiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod angen, yn aml, treulio dwywaith gymaint o ODDA na'r hyn sydd ei angen ar gyfer TGAU er mwyn cynnig lefel briodol o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Nid yw hyn yn golygu na all cymwysterau galwedigaethol mwy o faint gael eu haddysgu, ond na fyddant ond yn cael eu hystyried yn gyfwerth â dau gymhwyster TGAU yn y mesurau perfformiad. Mae hyn yn cefnogi'r farn sy'n dod i'r amlwg na ddylid annog dysgwyr i ddilyn cymwysterau galwedigaethol yn 14–16 oed, oherwydd y risg y byddant yn arbenigo yn rhy ifanc.

Mae llawer o randdeiliaid wedi gwneud sylwadau ynghylch pwysigrwydd cydnabod gwerth cymwysterau TGAU cwrs byr, sef hanner maint TGAU llawn. Mae'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn awgrymu bod cefnogaeth gref dros barhau i gyfrif y rhain mewn mesurau perfformiad, i annog hyblygrwydd wrth gynllunio'r cwricwlwm a chefnogi ymagwedd gynhwysol tuag at addysg. Byddai ystyried dau gymhwyster TGAU cwrs byr yn gyfwerth ag un TGAU llawn o ran perfformiad yn rhoi adlewyrchiad cywir o'r naill gymhwyster a'r llall o ran ODDA. Gallai cyfrif cymwysterau galwedigaethol sy'n llai na TGAU llawn hefyd gefnogi hyblygrwydd a chynhwysiant.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gyflwyno uchafswm 'cyfwerthedd' o ddau TGAU ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn nhermau perfformiad?

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau i gyfrif cymwysterau sy'n llai na TGAU (er enghraifft, TGAU cwrs byr neu gymwysterau galwedigaethol o faint tebyg) mewn mesurau perfformiad?

## B6.3 Cyfraniad cymwysterau 'cyfwerth' a diystyru cymwysterau

Y nod ar gyfer 14–16 yw addysg gyffredinol eang a chytbwys nad yw'n cyfyngu ar ddewisiadau'n ddiweddarach. Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn cydnabod bod lle i gynnwys cymwysterau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4. Fodd bynnag, mae angen sicrhau cydbwysedd priodol. Byddai gosod cyfyngiad ar nifer y cymwysterau 'cyfwerth' sy'n cyfrif tuag at drothwyon Lefel 1 a Lefel 2 o gymorth i gadw'r cydbwysedd hwn.

Rydym yn ystyried pennu uchafswm o 40 y cant y dysgwr ar gyfer cyfraniad cymwysterau galwedigaethol tuag at fesurau perfformiad Lefel 1 a Lefel 2. Byddai hyn yn golygu, er enghraifft, y gallai tri chymhwyster TGAU (60 y cant) a dau gymhwyster galwedigaethol (40 y cant) gyrraedd trothwy Lefel 2, ond na allai dau gymhwyster TGAU a thri chymhwyster galwedigaethol wneud hynny. Dylai hyn annog ysgolion i ganolbwyntio ar TGAU ac ystod mwy cyfyng o gymwysterau galwedigaethol nag ar hyn o bryd.

Rydym hefyd yn ystyried cadw'r dull presennol o 'ddiystyru'. Mae hyn yn golygu, os bydd dysgwr yn dewis dau gymhwyster sydd yr un fath, neu'n debyg iawn i'w gilydd, mai ond un ohonynt fydd yn cael ei gyfrif er mwyn mesur perfformiad – caiff y llall ei ddiystyru.

**Cwestiwn ymgynghori**

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i bennu uchafswm o 40 y cant ar gyfer cyfraniad cymwysterau galwedigaethol ym mesurau perfformiad Lefel 1 a Lefel 2?

Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i barhau â'n dull presennol o ddiystyru cymwysterau sydd yn union yr un fath neu'n debyg iawn i'w gilydd?

## B6.4 Cymharu perfformiad â Lloegr

Yn y gorffennol, cafwyd perthynas agos rhwng y prif fesurau perfformiad yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae Lloegr wedi cyhoeddi nifer o newidiadau i fesurau perfformiad o 2014. Byddai mabwysiadu'r newidiadau hyn yng Nghymru'n golygu na ellid pennu gwerth uchafswm o ddau gymhwyster TGAU ar gyfer cymwysterau galwedigaethol addas yn nhermau perfformiad (byddent yn cyfrif fel un yn unig). Hefyd, ni fyddai cymwysterau TGAU cwrs byr na

chyrsiau lefel mynediad yn cyfrif tuag at fesurau perfformiad. Os nad ydym yn mabwysiadu'r newidiadau hyn yng Nghymru, ni fydd yn hawdd cymharu rhwng y ddwy wlad.

**Cwestiwn ymgynghori**

Pa mor bwysig yw hi i barhau i allu cymharu perfformiad ysgolion yn uniongyrchol â Lloegr?

## B7. Y farchnad a rheoleiddio

### B7.1 Adolygiad o strwythur y farchnad cymwysterau cyffredinol

Ar 14 Rhagfyr 2011, yn dilyn adroddiadau yn y wasg ynghylch seminarau arholiadau a gynhaliwyd gan y sefydliadau dyfarnu, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau adolygiad o strwythur y farchnad cymwysterau cyffredinol yng Nghymru, o dan arweiniad tri ymgynghorydd allanol.

O dan y trefniadau presennol, mae pob un o'r pum prif sefydliadau dyfarnu yng Nghymru (CBAC), Lloegr (AQA, OCR, Edexcel) a Gogledd Iwerddon (CCEA) yn cynnig TGAU a Safon Uwch yn y prif bynciau. Mae rhyddid i ysgolion a chanolfannau eraill ym mhob gwlad gofrestru ymgeiswyr TGAU a Safon Uwch gydag unrhyw un o'r sefydliadau dyfarnu hyn. Bydd denu ymgeiswyr i ddilyn y cymwysterau a gynigir gan sefydliadau dyfarnu o fudd i'r sefydliadau hynny. Hynny yw, mae'r sefydliadau dyfarnu'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol, a marchnad lle mae'r ymgeisydd (neu'r ganolfan sy'n ei gofrestru) yn 'ddefnyddiwr'.

Dyma gylch gwaith yr adolygiad o strwythur y farchnad cymwysterau cyffredinol yng Nghymru:

- diffinio'r materion unigryw sy'n wynebu Cymru fel marchnad ar gyfer cymwysterau
- asesu effaith strwythur cyfredol y farchnad o sefydliadau dyfarnu ar safonau mewn TGAU a Safon Uwch
- asesu effeithiolrwydd strwythur cyfredol y farchnad
- nodi dewisiadau ar gyfer newid ac argymhellion.

Mae gweinidogion ar hyn o bryd yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad a byddant, maes o law, yn dangos sut

y maent am i'r canlyniadau gael eu datblygu yng nghyd-destun yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru.

### B7.2 Y farchnad ar gyfer cymwysterau

Er bod y tîm adolygu wedi cyflwyno eu hadroddiad i'r Gweinidogion, nid oedd yr adroddiad hwnnw ond yn trafod y farchnad cymwysterau cyffredinol. Byddai Bwrdd yr Adolygiad o Gymwysterau yn croesawu barn rhanddeiliaid ynghylch strwythur y farchnad gymwysterau gyfan yng Nghymru, gan gynnwys cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol.

**Cwestiwn ymgynghori**

I ba raddau ydych chi'n credu bod strwythur y farchnad ar hyn o bryd ar gyfer darparu cymwysterau:

- yn 'addas i'r diben'?
- yn dylanwadu ar ymddygiad canolfannau o ran y cymwysterau penodol a ddewisir ganddynt ar gyfer eu dysgwyr?
- yn effeithio ar raddau, safonau neu ddeilliannau?
- yn effeithio ar ddarpariaeth cymwysterau cyfrwng Cymraeg?

Allwch chi awgrymu model arall a allai fod yn well na'r system bresennol yn eich tyb chi?

### B7.3 Rheoleiddio a sicrhau ansawdd

Mae'r system gymwysterau yng Nghymru yn gysylltiedig â'r rhai yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon, gan adlewyrchu hanes llywodraeth yn y tair gwlad. Llywodraeth Cymru yw'r rheoleiddiwr cymwysterau yng Nghymru, gan weithio ochr yn ochr ag Ofqual yn Lloegr a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu (CCEA) yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r rheoleiddwyr cymwysterau yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod systemau sefydliad dyfarnu ar gyfer ei lywodraethu ei hun, ac ar gyfer datblygu, asesu a dyfarnu cymwysterau yn cydymffurfio â chyfres ragnodedig o feini prawf. Ar gyfer cymwysterau cyffredinol, mae'r ffocws ar gynnal a chadw safonau ar draws sefydliadau dyfarnu, o fewn pynciau a thros amser. Mae'r tri rheoleiddiwr ar hyn o bryd yn parhau i gydweithio ar sail tair gwlad ond, yn gynyddol, mae angen gwneud penderfyniadau ar wahân ym mhob un o'r tair gwlad a gweithredu gwahanol agweddau ar bolisi cenedlaethol.

**Cwestiwn ymgynghori**

A oes gennych unrhyw safbwyntiau ynghylch dyfodol rheoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru?

Mae gan seminarau sefydliadau dyfarnu, neu fel y'u gelwir amlaf yng Nghymru, 'sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus', hanes hir o ddarparu gwasanaeth i ddarparwyr dysgu, gan eu galluogi i feithrin eu dealltwriaeth o gymwysterau a'r methodolegau dysgu dan sylw. Yn Lloegr, mae cyfyngiadau'n cael eu gosod ar y seminarau hyn er mwyn lleihau'r risg o danseilio diogelwch arholiadau. Byddem yn croesawu eich barn ar y mater hwn.

**Cwestiwn ymgynghori**

A ddylid caniatáu i sefydliadau dyfarnu gyflenwi seminarau i athrawon yng Nghymru?

Os felly, i ba ddibenion y dylid caniatáu iddynt gyflenwi seminarau? I ba raddau y gellid, neu y dylid, cynyddu diogelwch y system seminarau bresennol?

# Atodiad: Tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

Hyd yma, mae'r Bwrdd Adolygu wedi cyfarfod naw o weithiau. Mae wedi ystyried tystiolaeth a phapurau a ddarparwyd gan ffrydiau gwaith mewnol Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd i fynd i'r afael ag agweddau ar yr Adolygiad, ac wedi clywed gan siaradwyr allanol yn cynrychioli sefydliadau allweddol.

Mae tystiolaeth wedi cael ei chasglu ar gyfer yr adolygiad o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- ystadegau swyddogol
- gwybodaeth reoli Llywodraeth Cymru
- tystiolaeth a ddarperir gan sefydliadau partner a rhanddeiliaid fel cyflogwyr, Gyrfa Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau, ColegauCymru, undebau athrawon, sefydliadau dyfarnu, Cynghorau Sgiliau Sector, sefydliadau addysg uwch a'r dysgwyr eu hunain
- adroddiadau ymchwil presennol
- adolygiadau blaenorol mewn perthynas â Chymru a Lloegr
- gwaith wedi'i gomisiynu'n arbennig, gan gynnwys astudiaethau o gymariaethau rhyngwladol, canfyddiadau o gymwysterau, asesiadau o sgiliau ysgrifennu a rhifedd, a chymwysterau sector-benodol.

Defnyddiwyd amryw o ffurfiau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, a dyna fu prif ffocws ein gwaith yn ystod cyfnod cyntaf yr adolygiad. Rydym wedi ceisio barn rhanddeiliaid drwy'r ffyrdd canlynol:

- llythyr oddi wrth Gadeirydd y Bwrdd Adolygu at yr holl randdeiliaid a nodwyd
- tudalennau gwe penodol ar gyfer yr adolygiad, a chyfeiriad e-bost ar gyfer gohebiaeth
- cydgynhadledd ColegauCymru/Llywodraeth Cymru ar gymwysterau, gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, colegau a sefydliadau dyfarnu
- cyfarfodydd gyda chyflogwyr, ysgolion, colegau, prifysgolion, sefydliadau dyfarnu, awdurdodau lleol, cyrff cynrychioli, undebau athrawon
- cyfarfodydd rhwng aelodau'r Bwrdd, swyddogion Llywodraeth Cymru a grwpiau o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr
- trafodaeth mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan sefydliadau rhanddeiliaid

- gweithdai mewn cynadleddau a chyfarfodydd blynyddol
- digwyddiad 'Y Sgwrs Go Iawn' lle bu dysgwyr, dysgwyr diweddar, prentisiaid a chyflogwyr yn trafod eu profiad o gymwysterau.

## Manylion y digwyddiadau a'r cyfarfodydd

| Digwyddiad | Rhanddeiliaid | Dyddiad a lleoliad |
|---|---|---|
| Y Gynhadledd Genedlaethol ar Gymwysterau, a gynhaliwyd a y cyd gan ColegauCymru a Llywodraeth Cymru | Pob grŵp o randdeiliaid | 02.02.12 Caerdydd |
| Seminarau'r Cyngor Sgiliau Sector (x 3 rhanbarth) | Cynghorau Sgiliau Sector | 21.02.12 Llanelli<br>27.02.12 Abertawe<br>05.03.12 Abertawe |
| Cyfarfod y Cyngor Sgiliau Sector | Cynghorau Sgiliau Sector, Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector | 07.03.12 Caerdydd |
| Cynhadledd Flynyddol Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru | Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru | 27.02.12 Llandrindod |
| Cynhadledd UCM | Myfyrwyr AU ac AB | 27.03.12 Y Drenewydd |
| Fforwm Sefydliadau Dyfarnu | Sefydliadau dyfarnu | 29.02.12 Caerdydd |
| Digwyddiad Polisi Sector y Cyngor Sgiliau Sector | Cynghorau Sgiliau Sector | 29.02.12 Caerdydd |
| Cyfarfod Uwch Reolwyr y Cwricwlwm AB | AB | 07.03.12 Y Drenewydd |
| Cyfarfodydd Cydgysylltwyr y Rhwydwaith 14–19 | Awdurdodau lleol | 19.03.12 Llandudno<br>23.04.12 Caerdydd<br>25.04.12 Abertawe<br>30.04.12 Bedwas |
| Digwyddiad 'Y Sgwrs Go Iawn' | Cyflogwyr, dysgwyr, prentisiaid | 29.03.12 Wrecsam |
| Digwyddiadau ysgolion | Athrawon ysgol | 21.03.12 Llandudno<br>27.03.12 Abertawe |
| Siambr Fasnach De Cymru/ Gyrfa Cymru'r Gorllewin | Cyflogwyr | 28.03.12 Llanelli |
| Cynhadledd y Sefydliad Materion Cymreig | Darparwyr, llunwyr polisi | 21.02.12 Caerdydd |

| | | |
|---|---|---|
| Digwyddiad cynghorwyr gyrfa | Cynghorwyr gyrfa | 16.04.12 Abertawe |
| Cyfarfod rhanddeiliaid SAUDGO Llywodraeth Cymru | Rhanddeiliaid allanol | 06.03.12 Bedwas |
| Confensiwn Gyrfaoedd | Cynghorwyr gyrfa | 07.02.12 Llanelli |
| Grwpiau ffocws gyda dysgwyr mewn ysgolion (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) | Dysgwyr | 23.02.12 Aberdâr<br>23.02.12 Port Talbot<br>24.02.12 Glannau Dyfrdwy<br>24.02.12 Gwynedd<br>28.02.12 Cwmbrân<br>02.03.12 Port Talbot<br>08.03.12 Aberdâr |
| Grwpiau ffocws gyda dysgwyr mewn colegau AB | Dysgwyr | 09.03.12 Wrecsam<br>02.04.12 Caerdydd |
| Cyngor y Cofrestryddion Academaidd | Prifysgolion | 10.02.12 Llundain |
| Grŵp Defnyddwyr Newid UCAS | Prifysgolion | 01.03.12 Cheltenham |
| Cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid | ColegauCymru<br>Estyn<br>CBAC<br>Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr<br>Cadeirydd Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu<br>Holl gynrychiolwyr y Ffederasiwn<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Y Cyd-gyngor Cymwysterau<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr<br>Adran Addysg Ceredigion<br>Ffederasiwn Busnesau Bach<br>Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru<br>Rhaglen Addysg Blaenau'r Cymoedd<br>Cyfarwyddwyr Addysg CCAC | 13.12.11<br>11.01.12<br>11.01.12<br>21.02.12<br>11.01.12<br>18.05.12<br>17.01.12<br>19.01.12<br>27.01.12<br>21.02.12<br>28.02.12<br>17.05.12<br>30.05.12<br>27.04.12 |

| Digwyddiad | Rhanddeiliaid | Dyddiad a lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd ag ysgolion | Ysgol Uwchradd Prestatyn<br>Ysgol Gyfun Radur<br>Ysgol Alun<br>Ysgol Gyfun Cwm Rhymni<br>Ysgol Gyfun Aberdaugleddau<br>Ysgol y Gader<br>Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig | 05.01.12 Prestatyn<br>17.01.12 Radur<br>20.01.12 Yr Wyddgrug<br>08.02.12 Coed Duon<br>09.02.12 Aberdaugleddau<br>21.02.12 Dolgellau<br>21.02.12 Aberystwyth |
| Cyfarfodydd â cholegau AB | Coleg Glannau Dyfrdwy<br>Coleg Pen-y-bont ar Ogwr<br>Coleg Caerdydd a'r Fro<br>Coleg Sir Benfro<br>Coleg Gwent | 20.01.12<br>08.02.12<br>08.02.12<br>09.02.12<br>25.04.12 |
| Cyflwyniadau gan sefydliadau i'r Bwrdd Adolygu | ColegauCymru<br>Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu<br>People 1st<br>Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector<br>Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau<br>Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon – Cymru<br>Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr<br>Undeb Cenedlaethol yr Athrawon<br>Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)<br>UCAC<br>CYDAG<br>UCM (wedi'i ganslo)<br>Sefydliad y Cyfarwyddwyr<br>Ffederasiwn y Busnesau Bach<br>Prifysgol Aberystwyth<br>Prifysgol Fetropolitan Caerdydd | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd gyda chyflogwyr a Chynghorau Sgiliau Sector | Gwesty Sba St Bride's<br>Admiral Group<br>SEMTA<br>Wales & West Utilities<br>CSkills<br>Rockwool International<br>Sgiliau er Cyfiawnder<br>Valero<br>CBI<br>International Rectifier<br>LANTRA<br>General Dynamics<br>Schaeffler<br>Airbus | 08.03.12<br>08.03.12<br>08.03.12<br>15.03.12<br>27.03.12<br>27.03.12<br>17.04.12<br>17.04.12<br>24.04.12<br>24.04.12<br>24.04.12<br>24.04.12<br>24.04.12<br>03.05.12 |
| Cyfarfodydd â phrifysgolion | Prifysgol Caerfaddon<br>Prifysgol Manceinion<br>Prifysgol Morgannwg<br>Prifysgol Caerdydd | 09.05.12<br>16.05.12<br>23.05.12<br>23.05.12 |